




Rhif ymchwil gymdeithasol: 85/2026

Dyddiad cyhoeddi: 9 Hydref 2026

Gwerthfawrogi'r amgylchedd hanesyddol



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Gwerthfawrogi'r amgylchedd hanesyddol

Awduron: AMION Consulting (MHM a BLA Translation)

Adroddiad Ymchwil Llawn: AMION Consulting (2026).
Gwerthfawrogi'r amgylchedd hanesyddol. Caerdydd: Llywodraeth
Cymru, Rhif ymchwil gymdeithasol 85/2026.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar dudalennau Ystadegau ac
ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru:

<https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn rhai'r ymchwilydd ac nid
ydynt o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ceri Thomas

Cadw

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: Ymchwil.cadw@llyw.cymru

Tabl cynnwys

1.	Cyflwyniad a chefnidir	7
1.1	Trosolwg.....	7
1.2	Diffinio'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru	7
1.3	Cefndir y prosiect	8
1.4	Nodau'r astudiaeth	9
1.5	Strwythur yr adroddiad hwn.....	10
2.	Methodoleg	11
2.1	Cyflwyniad.....	11
2.2	Dogfennau a ffynonellau	11
2.3	Methodoleg dechnegol	12
2.4	Cyfngiadau, rhagdybiaethau a phosibilrwydd o gyfrif dwbl	15
3.	Gwerth economaidd amgylchedd hanesyddol Cymru	20
3.1	Cyflwyniad.....	20
3.2	Traweffeithiau uniongyrchol	21
3.3	Traweffeithiau gwariant twristiaeth	25
3.4	Traweffeithiau anuniongyrchol	30
3.5	Traweffeithiau a achoswyd.....	32
3.6	Cyfanswm gwerth economaidd amgylchedd hanesyddol Cymru	32
4.	Gwerth cymdeithasol amgylchedd hanesyddol Cymru.....	34
4.1	Cyflwyniad.....	34
4.2	Gwerthoedd defnyddio a dim defnyddio'r amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd.....	35
4.3	Gwirfoddoli	40
4.4	Addysg a sgiliau	41
4.5	Traweffeithiau cyflogaeth	42
4.6	Gwerth cymdeithasol ariannol yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru	43
5.	Gwerth ehangach amgylchedd hanesyddol Cymru	45
5.1	Cyflwyniad.....	45
5.2	Traweffeithiau yn y sector a mecanweithiau.....	46
5.3	Gwerth ehangach i bobl, llefydd a chymunedau.....	53
5.4	Asesiad traweffaith ehangach heb gynnwys gwerth ariannol	59
6.	Casgliadau	60

6.1	Cyflwyniad.....	60
6.2	Ganfyddiadau.....	60
6.3	Argymhellion newydd	61

Rhestr o dablau

Tabl 1: cwmpas yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, 2026	8
Tabl 2: traweffeithiau rheoli, gwasanaethau ymwelwyr a gweithrediadau	22
Tabl 3: traweffeithiau Adeiladu a Buddsoddiad Cyfalaf	23
Tabl 4: traweffeithiau addysg ac ymchwil	25
Tabl 5: traweffaith uniongyrchol cyffredinol	25
Tabl 6: nifer yr ymweliadau a gofnodwyd i amgylchedd hanesyddol Cymru	26
Tabl 7: ymweliadau twristiaeth y gellir eu priodoli	28
Tabl 8: gwariant twristiaeth y gellir ei briodoli	29
Tabl 9: traweffeithiau twristiaeth	30
Tabl 10: lluosogwyr Math I	31
Tabl 11: traweffeithiau'r gadwyn gyflenwi	31
Tabl 12: lluosogwyr Math II	32
Tabl 13: traweffeithiau gwario'r gweithlu	32
Tabl 14: cyfanswm gwerth economaidd y sector	33
Tabl 15: canlyniadau trosglwyddo buddion	36
Tabl 16: gwerth defnydd amgylchedd hanesyddol	36
Tabl 17: gwerth dim defnydd yr amgylchedd hanesyddol	38
Tabl 18: traweffeithiau llesiant amgueddfeydd	39
Tabl 19: traweffeithiau dim defnydd amgueddfeydd	40
Tabl 20: traweffeithiau gwirfoddoli	41
Tabl 21: traweffeithiau lles addysg	41
Tabl 22: traweffeithiau economaidd	43
Tabl 23: cyfanswm gwerth cymdeithasol y sector	44

Geirfa

Anhwylder Straen Ôl-Drawmatig (PTSD)

Mae PTSD yn gyflwr iechyd meddwl a achosir gan ddigwyddiadau sy'n peri teimladau o straen, ofn neu ofid.

Arolwg Busnes Blynyddol i Gymru (ABS)

Yr ABS yw'r prif arolwg busnes strwythurol a gynhelir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae'n cynnwys y rhan fwyaf o sectorau busnes, ac yn casglu data ariannol o gyfrifon diwedd blwyddyn busnesau, gan gynnwys trosiant, cyflogau, prynu nwyddau a gwasanaethau, cyflenwadau a gwariant cyfalaf.

Blwyddyn Fywyd A Addaswyd yn ôl Llesiant (WELLBY)

Mae WELLBY gyfwerth â newid un pwynt mewn boddhad â bywyd ar raddfa o 0 i 10, fesul person fesul blwyddyn. Gellir defnyddio'r WELLBY fel mesur o werth cymdeithasol a all gyfrannu at gyfrifo effeithiau llesiant mentrau polisi cymhleth, mawr.

Canllawiau Dadansoddi Trafnidiaeth (TAG)

Mae TAG, a ddatblygwyd gan yr Adran Drafnidiaeth (DfT), yn darparu gwybodaeth am rôl modelu ac arfarnu trafndiaeth. Mae'r canllawiau'n canolbwyntio ar y strategaeth arfarnu, modelu a gwerthuso ar gyfer trafndiaeth.

Codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC)

Mae codau SIC yn cynrychioli'r system bresennol a ddefnyddir i ddosbarthu sefydliadau busnes ac unedau ystadegol eraill yn ôl y math o weithgarwch economaidd y maent yn ymwneud ag ef. Gellir defnyddio'r codau at ddibenion gweinyddol a chan gyrrff anllywodraethol fel ffordd gyfleus o ddosbarthu gweithgareddau diwydiannol o fewn strwythur cyffredin.

Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth (BRES)

Mae'r BRES yn cyhoeddi amcangyfrifon gweithwyr a chyflogaeth ar lefelau daearyddol a diwydiannol manwl ac fe'i hystyrir yn ffynhonnell swyddogol amcangyfrifon gweithwyr a chyflogaeth gan ddata daearyddol a diwydiannol manwl.

Cyfwerth â Llawn Amser (FTE)

Mae FTE yn cynrychioli mesuriad safonol a ddefnyddir i gyfateb nifer yr oriau a weithir gan weithiwr llawn amser arferol.

Datchwyddwyr Cynnyrch Domestig Gros (GDP)

Defnyddir y datchwyddydd GDP yn gyffredin fel mesur o chwyddiant cyffredinol yn yr economi ddomestig.

Yr Adran Drafnidiaeth (DfT)

Mae'r DfT yn gweithio gydag asiantaethau a phartneriaid i gefnogi'r rhwydwaith trafnidiaeth sy'n helpu busnesau'r DU ac sy'n cludo pobl a nwyddau o amgylch y wlad.

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS)

Mae'r DCMS yn cefnogi diwylliant, y celfyddydau, cyfryngau, chwaraeon, twristiaeth a chymdeithas sifil i helpu i gydnabod sefyllfa flaenllaw y DU. Mae'r DCMS yn gweithio i sicrhau y caiff safle blaenllaw'r wlad ei gydnabod yn llawn o ran cyfraniad economaidd, ffordd o fyw ac enw da byd-eang.

Fframwaith Mewnbwn-Allbwn (IO)

Mae'r defnydd o fframwaith IO yn gweithredu drwy ddarparu cynrychiolaeth o ryngweithiadau o fewn economi, sy'n manylu ar batrymau gwerthiant a phryniant a wnaed rhwng sectorau, gwerthiannau ar gyfer defnydd terfynol a phroffiliau nodweddion economaidd cysylltiedig megis GVA. Maent yn darparu ffyrdd o asesu traweffeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac a achoswyd drwy'r holl sectorau mewn economi.

Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)

Y GIG yw'r term cyfunol ar gyfer y pedair system gofal iechyd ar wahân a ariennir yn gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig: y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Lloegr, GIG yr Alban, GIG Cymru ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng ngogledd Iwerddon.

Grŵp Addysg mewn Amgueddfeydd (GEM)

Mae GEM yn darparu ystod o wasanaethau i gefnogi addysgwyr amgueddfeydd. Mae'r rhain yn cynnwys aelodaeth broffesiynol, cyfleoedd am hyfforddiant, mentora gyrfa, cyhoeddiadau rheolaidd a chynrychiolwyr pwrpasol ar draws pedair gwlad y DU, Ewrop a ledled y byd.

Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (HEG)

Mae'r HEG yn fforwm cenedlaethol, sy'n cynnwys cyrff sector cyhoeddus, cynrychiolwyr sefydliadau sector gwirfoddol a pherchnogion safleoedd hanesyddol.

Gwerth Ychwanegol Gros (GVA)

GVA yw'r gwerth a gynhyrchir gan unrhyw uned economaidd sy'n cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau. Mae'n cyfleu gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir, tynnu cost unrhyw fewnbynnau a ddefnyddir yn y broses gynhyrchu honno. GVA yw'r mesur safonol o weithgarwch economaidd sy'n mynd rhagddo mewn ardal. Mae'n cynnwys y mwyafrif o gynnyrch domestig gros (GDP), ac eithrio trethi a chymorthdaliadau ar gynnyrch (er enghraifft Treth ar Werth a thollau ar danwydd neu alcohol).

Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM)

Mae STEM yn sefyll am wyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg ac mae'n cyfeirio at unrhyw bynciau sy'n dod o dan y pedair disgyblaeth hon.

Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Cwiar a Chwestiynu a'r gymuned gyfan (LHDTC+)

Mae LHDTC+ yn acronym a ddefnyddir yn gyffredin i gyfeirio at bobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsryweddol, Cwiar a Chwestiynu, a'r gymuned gyfan (sef y gymuned LHDTC+). Mae'r '+' yn cyfleu'r hunaniaethau niferus sy'n disgyn y tu hwnt i gyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth rywedd a deuaidd mynegiant rhywedd.

Llwybr Treftadaeth Ddiwylliannol Ewrop (ERIH)

Yr ERIH yw'r rhwydwaith treftadaeth ddiwydiannol ar gyfer gwybodaeth dwristiaeth yn Ewrop. Caiff y rhwydwaith ei reoli gan gymdeithas ERIH, sy'n cynnwys tua 350 o aelodau mewn 27 gwlad.

Parodrwydd i Dalu (WTP)

WTP yw'r swm mwyaf y mae unigolyn yn barod i'w wario ar nwyddau neu wasanaethau. Yng nghyd-destun yr astudiaeth hon, WTP yw'r metrig allweddol sy'n ategu'r hoff ddull a nodir ac a ddefnyddir i adnabod y gwerth cymdeithasol gyda gwerth ariannol sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO)

Mae UNESCO yn asiantaeth arbenigol sydd wedi ymrwymo i gryfhau cydweithredu rhyngwladol yn y meysydd addysg, gwyddoniaeth, diwylliant a gwybodaeth.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)

Y ONS yw cynhyrchydd annibynnol mwyaf y DU o ystadegau swyddogol ac mae'n sefydliad ystadegol, cenedlaethol cydnabyddedig. Mae'r ONS yn gyfrifol am gasglu a chyhoeddi ystadegau sy'n gysylltiedig â'r economi, y boblogaeth a'r gymdeithas ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Trysorlys Ei Fawrhydi (EF)

Trysorlys EF yw gweinyddiaeth economaidd a chyllid y llywodraeth, sy'n cynnal rheolaeth dros wariant cyhoeddus, gan osod cyfeiriad polisi economaidd y DU a gweithio i gyflawni twf economaidd cadarn a chynaliadwy.

Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG)

Mae'r MHCLG yn ganolog i'r llywodraeth sy'n cael ei harwain gan genhadaeth, o bennu sylfeini tŷ fforddiadwy i ddychwelyd pŵer yn ôl i gymunedau ac ail-adeiladu llywodraethau lleol. Ei henw blaenorol oedd yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

Ymweld â Ffrindiau a Pherthnasau (VFR)

Mae VFR yn fath o dwristiaeth sy'n cwmpasu categori eang o unigolion sy'n teithio i rywle yn bennaf ar gyfer y diben o gwrdd â ffrindiau a pherthnasau.

1. Cyflwyniad a chefnidir

1.1 Trosolwg

Mae AMION Consulting wedi cael ei gomisiynu gan Cadw, ar ran y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (HEG), er mwyn adeiladu ar ymchwil blaenorol a wnaed er mwyn gwerthfawrogi'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, gyda'r nod o wella trylwyredd a dal technegau ymchwil economaidd newydd. Bydd yr ymchwil hwn yn rhan ganolog o arddangos traweffaith economaidd a chymdeithasol ehangach yr amgylchedd a fydd yn ei dro yn bwydo i mewn i'r broses o wneud penderfyniadau strategol ar draws yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

1.2 Diffinio'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru

O fewn cwmpas yr ymchwil hwn, mae'r diffiniad o'r amgylchedd hanesyddol yn seiliedig ar 'gradd mewnol' o sefydliadau sy'n eistedd yng nghanol yr holl weithgarwch cysylltiedig yng Nghymru. Mae'r ymchwil yma hefyd yn cynnwys amgueddfeydd oherwydd y gorgyffwrdd a'r synergeddau rhwng y gwahanol fathau o asedau, yn ogystal â faint o amgueddfeydd sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau hanesyddol. Yn unol â'r meini prawf cynhwysiant sy'n gysylltiedig gyda'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd, mae'r sampl o amgueddfeydd sy'n cael eu cofnodi o fewn y dadansoddiad hwn yn cynnwys rhai sydd naill ai wedi'u [Hachredu](#) neu sy'n gweithio tuag at Gynllun Achredu Amgueddfeydd y DU. Lle mae hynny'n ddichonadwy yn yr asesiad hwn, mae dadansoddiad AMION yn gwahaniaethu rhwng y gwerth sy'n gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol sydd wedi eu cysylltu gydag amgueddfeydd. Mae hyn yn galluogi'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru i gadw diffiniad sector ehangach ar draws yr astudiaeth, yn unol â'r canlynol. Ar draws gweddill yr adroddiad hwn, defnyddir amgylchedd hanesyddol er mwyn cyfeirio at yr holl asedau amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd ar y cyd. Mae tablau data a chasgliadau'n ceisio gwahaniaethu rhwng asedau amgylchedd amgylcheddol ac amgueddfeydd lle mae'n briodol.

Er mwyn asesu'r sector amgylchedd hanesyddol, mae ein hastudiaeth yn ystyried 'Sefydliadau sy'n weithredol o ran gwneud gwaith cadwraeth, cynnal a chadw a rheoli a/neu greu mynediad at amgylchedd hanesyddol Cymru'. Bydd yr ymchwil hwn yn asesu'r asedau canlynol:

- henebion cofrestredig/safleoedd archaeolegol penodedig
- adeiladau rhestredig
- ardaloedd cadwraeth
- gerddi hanesyddol cofrestredig/tirweddau a ddyluniwyd
- tirweddau hanesyddol cofrestredig
- tirweddau hanesyddol morol
- amgueddfeydd/canolfannau treftadaeth

Mae'r diffiniad hwn o'r sector amgylchedd hanesyddol wedi ei gytuno arno gyda Cadw er mwyn darparu sail gyson ar gyfer asesu ac mae'n parhau i fod wedi'i alinio'n fras gyda diffiniadau a ddefnyddiwyd mewn ymchwil blaenorol. Er bod y cwmpas yn hepgor rhai

gweithgareddau ehangach sy'n gysylltiedig gyda threftadaeth, megis archifau a llyfrgelloedd, mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar sefydliadau sydd â'u prif rôl yn canolbwyntio ar gadwraeth, rheoli, cynnal a chadw a diogelu mynediad cyhoeddus at amgylchedd hanesyddol Cymru. Er bod archifau a llyfrgelloedd yn gwneud cyfraniad pwysig at gadw a darparu mynediad at wybodaeth hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol, nid ydynt yn gyffredinol yn rheoli nac yn gyfrifol am gadwraeth o fewn yr amgylchedd sy'n ffocws i'r asesiad hwn. Yn yr un modd, nid yw'r cwmpas hwn yn ceisio dal holl ystod na dwysedd llefydd hanesyddol yng Nghymru. Mae gan Gymru amgylchedd hanesyddol gyfoethog ac eang sy'n cynnwys asedau megis tai hyn, capeli, adeiladau fferm, strydluniau a llefydd eraill sy'n cyfrannu at hunaniaeth ac ymdeimlad o le. Mae nifer o'r asedau hyn yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol, diwylliannol anniriaethol, hyd yn oed pan nad ydynt wedi eu dynodi na'u rheoli'n ffurfiol. Er mwyn sicrhau asesiad cyson a thrylwyr o'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar sefydliadau sy'n uniongyrchol gyfrifol am stiwardiaeth a mwynhad cyhoeddus yr amgylchedd hanesyddol corfforol gan gynnwys henebion, adeiladau hanesyddol, tirweddau ac atyniadau.

O fis Mai 2026, cadarnhaodd gwybodaeth a ddarparwyd gan Cadw ac a gafwyd gan yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024 bod y cyfrifiadau o asedau amgylcheddau hanesyddol presennol yng Nghymru fel a ganlyn.

Tabl 1: cwmpas yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, 2026

Math o ased	Cyfrif
Safleoedd Treftadaeth y Byd	4
Adeiladau Rhestredig	30,113
Henebion Cofrestredig	4,234
Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig	395
Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig	58
Llongddrylliadau Hanesyddol Dynodedig	6
Ardaloedd Cadwraeth	529
Amgueddfeydd	107

Ffynhonnell: Cadw a Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd

1.3 Cefndir y prosiect

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan allweddol o seilwaith cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae'n cefnogi swyddi, twristiaeth ac economïau wrth chwarae rhan ehangach yn ogystal mewn hunaniaeth gymunedol, llesiant, dysgu, gwneud llefydd a gwynnuch trefi, pentrefi a chymunedau gwledig. Yn y cyd-destun hwn, mae tystiolaeth drylwyr yn hanfodol i arddangos gwerth llawn yr amgylchedd hanesyddol ac i gefnogi gwneud penderfyniadau

gwybodus. Fodd bynnag, parhau mae'r diffyg tystiolaeth wedi'i diweddarau sy'n dal traweffaith ehangach a gwerth llawn yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Ymgwymerwyd ag ymchwil blaenorol i werth economaidd yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru gan ECOTEC Research a Consulting yn 2010 ac roedd yn amcangyfrif bod yr amgylchedd hanesyddol yn cefnogi bron i 30,500 o swyddi sy'n Gyfwerth ag Amser Llawn (FTE) yng Nghymru a'i fod yn cyfrannu oddeutu £840 miliwn at Werth Ychwanegol Gros cenedlaethol (GVA) Cymru (prisiau 2009/10). O ganlyniad, yn 2019, cynhyrchwyd Adroddiad Blynyddol Cyfrifiad Treftadaeth 2018-19 oedd yn dwyn ynghyd data o dan gyfres o themâu gan gynnwys cefnogaeth ar gyfer cyflogaeth, cefnogaeth ar gyfer twristiaeth, cefnogaeth ar gyfer dysgu, cefnogaeth ar gyfer cynllunio, mentrau treftadaeth, gweithgarwch treftadaeth mewn peryg a'r sector cyhoeddus.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil yma wedi dyddio, gan fod technegau gwerthuso economaidd perthnasol wedi datblygu'n sylweddol ers i'r aseiniad hwn gael ei gwblhau. Yn benodol, mae'r gallu i werthuso a rhoi gwerth ariannol ar draweffeithiau cymdeithasol ehangach yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol drwy ymchwil a gynhaliwyd gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel rhan o'r fframwaith Gwerthfawrogi Diwylliant a Chyfalaif Treftadaeth. Dylid nodi bod nifer o agweddau eraill o fethodoleg AMION sy'n amrywio o'r hyn a ddefnyddiwyd o fewn yr ymchwil a wnaed yn 2010, a dylid ystyried hyn wrth asesu'r ddau ddadansoddiad ochr yn ochr â'i gilydd.

Gan hynny, roedd comisiwn AMION yn ceisio cwblhau gwerthusiad trylwyr, wedi'i ddiweddarau ar amgylchedd hanesyddol Cymru sy'n alinio'n llawn gyda chanllawiau arfer gorau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a chyrrff sectoraidd eraill.

1.4 Nodau'r astudiaeth

Uchelgais y prosiect hwn yw sefydlu asesiad traweffaith llawn wedi'i faintioli o amgylchedd hanesyddol Cymru ac i archwilio'r traweffaith ansoddol ehangach. Mae nodau'r astudiaeth fel a ganlyn:

- deall a meintoli'r traweffeithiau a'r gwerth sydd gan yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru ar ystod o ddeilliannau amgylcheddol economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol
- defnyddio asesiad ansoddol ehangach o draweffeithiau na ellir eu meintoli, gan gydnabod nad oes modd i bob sianel traweffaith a gwerth gael eu meintoli'n drylwyr
- darparu sail tystiolaeth i fod yn sail i bolisi a gwneud penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru, gan alluogi i achos wedi'i atgyfnerthu gael ei wneud dros fuddsoddiad mewn treftadaeth a chefnogaeth iddo
- asesu trylwyrdd y data a gafwyd, cynnig a gweithredu methodoleg addas ar gyfer mesur gwerth a/neu draweffaith economaidd yn yr hirdymor
- datblygu argymhellion ar gyfer ymchwil pellach lle mae bylchau yn y data

1.5 Strwythur yr adroddiad hwn

Mae gweddill yr adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- mae Adran 2 yn darparu trosolwg o'r fethodoleg a ddefnyddir i gwblhau'r asesiad hwn ac mae'n cydnabod rhai o'r risgiau a'r cyfyngiadau sy'n rhan gynhenid o'r dull hwn
- mae Adran 3 yn amlinellu gwerth economaidd yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru
- mae Adran 4 yn amlinellu gwerth cymdeithasol ariannol yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, wedi'i gyfrifo yn unol â methodolegau Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi
- mae Adran 5 yn archwilio gwerth ehangach yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru ac mae'n cynnwys detholiad o enghreifftiau o weithgaredd sy'n llawn traweffaith
- mae Adran 6 yn crynhoi canfyddiadau'r dadansoddiad hwn

2. Methodoleg

2.1 Cyflwyniad

Mae dull AMION yn yr astudiaeth hon wedi'i sylfaenu mewn agwedd dull cymysg, gan gyfuno gwerthfawrogiad ac asesiad traweffaith meintiol gyda thystiolaeth ansoddol o draweffaith ehangach i mewn i fecanweithiau anffurfiol allweddol. Mae ein methodoleg wedi canolbwyntio ar ddull 'o'r gwaelod i fyny' ar gyfer asesu gwerth economaidd a chymdeithasol, gan ymgysylltu gyda sefydliadau treftadaeth sydd wedi'u hadnabod er mwyn darparu sail tystiolaeth drylwyr ar gyfer yr astudiaeth hon. Mae'r adran hon yn darparu trosolwg o fethodoleg AMION, gan gynnwys y prif ddiffiniadau, ffynonellau data a'n dull technegol.

2.2 Dogfennau a ffynonellau

2.2.1 Adolygiad cefndirol

Cam allweddol o fewn methodoleg AMION oedd adolygiad llawn cychwynnol o'r dogfennau cefndirol allweddol. Gan ei ddefnyddio i gefnogi datblygu dull methodolegol AMION yn yr astudiaeth hon, cafodd asesiad manwl o'r gwaith gwerthuso blaenorol a gynhaliwyd yn 2010 a 2019 ei gwblhau er mwyn adnabod unrhyw fylchau yn y technegau casglu data a'r metrigau allweddol a ddefnyddiwyd. Dylid nodi bod yna sawl agwedd o fethodoleg AMION sy'n wahanol i'r hyn a ddefnyddiwyd o fewn yr ymchwil yn 2010, y dylid ei ystyried wrth asesu'r ddau ddadansoddiad ochr yn ochr â'i gilydd.

Bu i AMION hefyd gwblhau adolygiad o'r ddesg o lenyddiaeth gwerthuso amgylchedd hanesyddol ehangach gan gynnwys 'Fframwaith Cyfalaf Gwerthfawrogi Diwylliant a Threftadaeth' yr Adran dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Cyfryngau. Roedd hyn hefyd yn cynnwys asesiad o ymchwil diweddar a gyhoeddwyd gan Historic England, gan gynnwys astudiaeth llesiant genedlaethol yn gysylltiedig â dwysedd treftadaeth ac asesiad traweffaith economaidd ar y sector treftadaeth yn Lloegr.

Unwaith eto, dylid nodi bod yna wahaniaethau methodolegol allweddol ar draws yr astudiaeth hon ac y gall yr ymchwil hwn gan Historic England gyfyngu ar i ba raddau y gellir cymharu unrhyw brif ganfyddiadau. Er enghraifft, roedd astudiaeth traweffaith economaidd Historic England yn cael ei harwain gan ddefnydd 'o'r gwaelod i lawr' o godau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) a ffynonellau data eilaidd eraill.

2.2.2 Casglu data a synthesis

Lle mae'n bosib, mae'r astudiaeth hon wedi canolbwyntio ar ddefnyddio data ar gyfer y flwyddyn ariannol fwyaf diweddar, sef 2024/25 ar yr adeg pan ddechreuodd y gwaith adrodd a chasglu data. Mae cyfres o weithgareddau ymchwil data cynradd wedi bod yn sail i'r gwerthfawrogiad hwn o Amgylchedd Hanesyddol Cymru.

Cais am ddata

Cafodd ffurflen cais am ddata ansoddol ei dosbarthu ymysg amrywiaeth o randdeiliaid allweddol er mwyn cynhyrchu pwll o ddata craidd oedd yn gysylltiedig gyda pherfformiad

ariannol, rhifau ymwelwyr a meysydd gweithgaredd eraill i'w defnyddio yn sylfaen ar gyfer dadansoddiad technegol fwy manwl. Gan gydnabod y gall rhai sefydliadau amgylchedd hanesyddol fod â llai o gapasiti neu allu i goladu'r data y gwnaed cais amdano, fe wnaeth AMION hefyd ddefnyddio ffurflen cais am ddata fwy cymesur gyda pheth o'r wybodaeth ansoddol craidd er mwyn ei gynnwys o fewn y modelu gwerth economaidd.

Rhaglen ymgysylltu gyda rhanddeiliaid

Rhaglen ymgysylltu gyda rhanddeiliaid eang yn cynnwys trafodaethau gydag unigolion ar draws y sector cyhoeddus, cyrff a grwpiau o'r sector, ac unigolion sy'n gysylltiedig gyda safleoedd hanesyddol ac amgueddfeydd penodol. Ymgwymerwyd â'r ymgynghoriadau hyn er mwyn cael data ansoddol sy'n gysylltiedig gyda rhai enghreifftiau o weithgaredd sydd â thraweffaith, ac i archwilio rhai o'r mecanweithiau anffurfiol y tu ôl i'r data a gynhyrchwyd gan y ffurflen gais data digidol.

Dosbarthiad arolygon gwerthuso digwyddiadol

Ymgwymerwyd ag arolygon ar-lein a phanel er mwyn cefnogi'r dadansoddiad gwerthuso digwyddiadol. Mae gwerthusiad digwyddiadol yn ddull sy'n seiliedig ar arolwg a ddefnyddir i amcangyfrif y gwerth economaidd mae pobl yn ei roi ar nwyddau sydd heb fod ar y farchnad, megis diogelu treftadaeth, drwy ofyn pa mor barod fyddent i dalu am ddeiliant wedi'i ddiffinio. Cafodd arolwg defnydd-gwerth Cadw ei hyrwyddo drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac roedd yn targedu preswylwyr Cymru oedd wedi ymweld â chestyll hanesyddol. Cafodd arolygon dim defnydd ar wahân ar gyfer asedau Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a ddarparwyd gan banel cynrychioladol ar-lein a reolwyd gan MHM. Gyda'i gilydd, derbyniwyd dros 1,000 o ymatebion ar draws y tair astudiaeth, gan ddarparu sail gynhwysfawr ar gyfer amcangyfrif y gwerth mae preswylwyr yn ei roi ar ddiogelu asedau treftadaeth hanesyddol, gan gynnwys gwerthoedd gan ymwelwyr a rhai sydd heb fod yn ymwelwyr.

Yn achos amgueddfeydd, defnyddiwyd data'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024 yn sail i'r dadansoddiad hwn. Fodd bynnag, oherwydd newidiadau yn y sampl o amgueddfeydd a ymatebodd i'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd yn 2024 o'i gymharu gyda'r arolwg yn 2022, mae yna ychydig o wahaniaethau wedi bod o fewn y set data a gafodd ei goladu a'r prif ffigurau. Gan fyfyrir ar y ffaith mai dim ond ychydig o flynyddoedd sydd wedi mynd heibio oddi ar yr ymarferion casglu data yma, cadarnhaodd ymgynghoriad gyda Cadw a Llywodraeth Cymru y gellid mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o fewn data 2024 ar gyfer amgueddfeydd wnaeth ond ymateb yn 2022.

2.3 Methodoleg dechnegol

2.3.1 Gwerth economaidd amgylchedd hanesyddol Cymru

Mae'r asesiad craidd o werth economaidd yr amgylcheddol hanesyddol yng Nghymru wedi'i seilio ar fframwaith Mewnbwn-Allbwn cenedlaethol a ddefnyddir data arolwg a rhagdybiaethau safon y diwydiant i gyfrifo cyfanswm ôl-troed economaidd yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Defnyddir cyflogaeth a Gwerth Ychwanegol Gros (GVA), yn gyson ag astudiaethau cymaradwy'r sector, gan gynnwys gwaith diweddar i Historic England, fel y prif ffyrdd o fesur ôl-troed economaidd, wrth i wariant gael ei drin fel ysgogydd

isorweddol gweithgarwch, yn hytrach nag effaith ychwanegol. Gall cyfanswm yr ôl-troed economaidd gael ei grynhoi drwy effeithiau GVA a chyflogaeth uniongyrchol, anuniongyrchol ac a ysgogwyd a gefnogir ar draws economi Cymru.

Mae'r defnydd o fframwaith IO yn gweithredu drwy ddarparu cynrychiolaeth o ryngweithiadau o fewn economi, sy'n manylu ar batrymau gwerthiant a phryniant a wnaed rhwng sectorau, gwerthiannau ar gyfer defnydd terfynol a phroffiliau nodweddion economaidd cysylltiedig megis GVA. Maent yn darparu ffyrdd o asesu traweffeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac a achoswyd drwy'r holl sectorau mewn economi.

Mae'r asesiad yn defnyddio tablau dadansoddi mewnbwn-allbwn diweddaraf a lluosyddion economaidd dangosol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2026. Mae'r rhain yn darparu amcangyfrifon ar lefel sector o berthnasoedd galw a chyflenwi ar draws dros 50 o sectorau o blith economi Cymru, gan alluogi i draweffeithiau uniongyrchol gael eu trawsnewid yn effeithiau cyflogaeth anuniongyrchol ac a achoswyd gan GVA ehangach. Mae AMION wedi adolygu'r lluosyddion cyhoeddedig yma yn erbyn lluosyddion sydd wedi'u teilwra'n arbennig ac a ddatblygwyd ar gyfer astudiaethau eraill. Mae'r profi hwn y rhoi sicrwydd bod lluosyddion cyhoeddedig Llywodraeth Cymru yn gynhwysfawr ac y briodol ar gyfer amcangyfrif traweffaith uniongyrchol, anuniongyrchol a achoswyd yn yr astudiaeth hon.

Fodd bynnag, [mae nifer o gyfyngiadau'n gysylltiedig â defnyddio'r lluosyddion hyn](#). Mae modelau mewnbwn-allbwn yn tybio bod cysylltiadau sefydlog a llinol rhwng mewnbynnau ac allbynnau ac nid yw'n rhoi cyfrif llawn am gyfyngiadau ochr gyflenwi, newidiadau mewn prisiau neu gyflogau, newidiadau rhwng mewnbynnau, arbedion maint neu ymatebion ar sail ymddygiad. Dylai'r canlyniadau felly gael eu dehongli fel amcangyfrifon dangosol o raddfa bosibl gweithgarwch economaidd ehangach a gefnogir, yn hytrach nag effeithiau cywir neu a arsylwir yn uniongyrchol. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi'u hystyried drwy gydol ar yr asesiad ac mae'r lluosyddion wedi'u cymhwyso i feysydd gweithgarwch wedi'u dadgyfuno'n gymharol yn unig.

Mae ffynonellau allweddol eraill o ddata eilaidd a ddefnyddiwyd i gefnogi'r asesiad gwerth economaidd wedi'i feintioli yn cynnwys [GVA diweddaraf Llywodraeth Cymru fesul set data'r diwydiant](#) (SIC2007), [Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth](#) (BRES) [Swyddfa Ystadegau Gwladol](#) (ABS) ar gyfer Cymru.

2.3.2 Gwerth cymdeithasol amgylchedd hanesyddol Cymru

Er bod yr asesiad gwerth economaidd yn dilyn model a sefydlwyd yn gymharol ac a ddefnyddir mewn astudiaethau cymaradwy, gan gynnwys gwaith gan Historic England a Chymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol, mae'r asesiad gwerth cymdeithasol yn darparu cyfraniad mwy arloesol a phwrrpasol drwy gymhwyso technegau prisiau Llyfr Gwyrdd y Trysorlys EF i fesur buddion sydd fel arfer wedi'u hepgor o astudiaethau effaith economaidd confensiynol. Mae rhai o'r prif feysydd traweffaith a archwiliwyd wedi cynnwys:

- gwerth cymdeithasol yn gysylltiedig gyda chyflogaeth, gwirfoddoli, dysgu a chyfranogi mewn digwyddiadau wedi cael ei drosi'n ariannol gan ddefnyddio dulliau profedig a gynhwyswyd ar draws canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi ac ariannol perthnasol

- mae defnydd diwylliannol a gwerthoedd dim defnydd wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio astudiaeth Gwerthfawrogi Ddigiwyddiadol oedd yn canolbwyntio ar wahanol fathau o asedau amgylchedd hanesyddol yng Nghymru

Mae'r astudiaeth Gwerthfawrogi Ddigiwyddiadol, fel dull dewisol datganedig a ddefnyddiwyd er mwyn amcangyfrif gwerth economaidd nwyddau a gwasanaethau sydd heb fod yn cael eu masnachu mewn marchnadoedd, wedi'i chynllunio i gynhyrchu gwerthoedd parodrwydd i dalu (WTP) ar gyfer asedau hanesyddol yng Nghymru. Cafodd yr astudiaeth ei chynllunio i gydymffurfio gyda Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi ac i fodloni disgwyliadau methodolegol fframwaith Cyfalaf Diwylliant a Threftadaeth yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan atgyfnerthu pa mor drylwyr yw'r gwerthfawrogiad cymdeithasol hwn a darparu sail tystiolaeth fwy cadarn ar gyfer gwaith gwerthuso posib yn y dyfodol yn yr amgylchedd hanesyddol.

2.3.3 Gwerth ehangach amgylchedd hanesyddol Cymru

Gan gydnabod nad oes modd rhoi gwerth ariannol ar yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig gyda'r amgylchedd yng Nghymru, mae AMION hefyd wedi cynnal asesiad ansoddol sy'n seiliedig ar astudiaeth achos o werth cymdeithasol ehangach. Lle mae'n briodol, mae astudiaethau achos thematig ac enghreifftiau wedi cael eu defnyddio er mwyn hwyluso asesiad o'r traweffeithiau hyn yn unol â'r raddfa saith pwynt a nodir yng Nghanolllawiau Gwerthuso'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), sy'n amrywio o 'niweidiol mawr' i 'budd mawr'.

- llawer o niwed - anfantais fawr sy'n debygol o gael traweffaith ymarferol ar gyfraniad prosiect i les cymdeithasol
- niwed cymedrol - anfantais bwysig ond ni fydd yn cael traweffaith sylweddol ar gyfraniad y sector i les cymdeithasol
- ychydig o niwed - anfantais fach sy'n annhebygol o gael traweffaith ymarferol ar sut mae gweithgarwch yn y sector yn bwydo drwyddo i les cymdeithasol
- niwtral - dim traweffaith
- ychydig o fudd - budd bach sy'n annhebygol o gael traweffaith ymarferol ar gyfraniad prosiect i les cymdeithasol
- budd cymedrol - budd pwysig ond ni fydd yn cael traweffaith sylweddol ar ei ben ei hun ar fuddion lles cymdeithasol
- budd mawr - budd mawr sy'n debygol o gael traweffaith ymarferol ar sut mae gweithgarwch yn y sector yn bwydo drwyddo i les cymdeithasol.

Mae'n bwysig nodi y gall rhai ardaloedd o werth ehangach orgyffwrdd ychydig gyda sianeli traweffaith o ran gwerth ariannol. Pwrpas yr asesiad ansoddol yw cefnogi ystyriaeth fwy holistig o werth sectoraidd drwy lens amgen, a sicrhau bod gwerth llawn y gweithgaredd o fewn y sector yn cael ei ddal drwy gydol yr adroddiad hwn.

2.4 Cyfyngiadau, rhagdybiaethau a phosibilrwydd o gyfrif dwbl

Mae'r gwerthusiad hwn wedi cymhwyso methodoleg traweffaith economaidd sefydledig, gan dynnu ar ddata cynradd o sefydliadau treftadaeth, tystiolaeth twristiaeth a gyhoeddwyd a lluosogwyr economaidd sy'n benodol i'r sector. Fel gydag unrhyw werthfawrogiad yn y sector, dylai'r canfyddiadau gael eu dehongli yng ngoleuni nifer o gyfyngiadau a rhagdybiaethau. Nid yw'r rhagdybiaethau hyn yn tanseilio'r dadansoddiad, ond maent yn bwysig o ran deall cwrpas yr asesiad a'r agwedd ofalgar a fabwysiadwyd. Mae'r rhagdybiaethau a'r cyfyngiadau hyn wedi eu nodi isod.

Mae'r dadansoddiad yn defnyddio diffiniad cul a gofalus o amgylchedd hanesyddol Cymru. O ganlyniad, mae'r canfyddiadau'n debygol o danddatgan gwerth llawn yr amgylchedd ehangach. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys y dewis methodolegol gofalus a wnaed mewn perthynas â mesur traweffaithiau sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu a chadwraeth, sy'n cael eu nodi o fewn Tabl 3. Fodd bynnag, cafodd y dull hwn ei fabwysiadu er mwyn mwynhau tryloywder, cysondeb a thrylwyrdd. Mae'r dull ofalus yma a methodoleg amgen hefyd yn egluro pam nad yw prif ganfyddiadau'r dadansoddiad hwn o reidrwydd yn gallu cael eu cymharu gydag ymchwil blaenorol a gwblhawyd ar sector amgylchedd hanesyddol Cymru a'r sector treftadaeth yn Lloegr.

2.4.1 Cyfyngiadau

Dylid cymryd gofal wrth gymharu canfyddiadau'r astudiaeth hon gyda gwerthusiadau o fewn y sector a gynhyrchwyd yn y gorffennol neu yn rhywle arall yn y DU. Mae astudiaethau eraill wedi mabwysiadu gwahanol ddiffiniadau o'r amgylchedd hanesyddol, gwahanol fethodolegau ac yn mesur gwahanol ffynonellau gwerth. Er enghraifft, mae rhai astudiaethau diweddar wedi amcangyfrif y buddion lles sy'n gysylltiedig gyda byw yn agos at asedau hanesyddol, lle mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwerth a gynhyrchwyd drwy ymgysylltu gyda'r amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd. Mae'r dull gofalus hwn a'r fethodoleg amgen yn egluro pam nad yw prif ganfyddiadau'r dadansoddiad hwn o reidrwydd yn gallu cael eu cymharu gydag ymchwil arall ar draws y sector yn ehangach.

Dim ond 10 sefydliad sy'n gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol a ddarparodd ymatebion ansoddol cyflawn i'r cais am ddata. Mae llond llaw o sefydliadau eraill wedi darparu peth gwybodaeth feintiol naill ai drwy gyfweiliadau rhanddeiliaid neu ffurflen gais am ddata gymesur sy'n canolbwyntio ar y wybodaeth graidd sydd ei hangen er mwyn cefnogi'r modelu gwerth economaidd. Er mwyn llenwi unrhyw fylchau o fewn y set data llawn yn dilyn y cyfnod casglu data, defnyddiodd AMION dystiolaeth o ffynonellau eilaidd perthnasol, sefydliadau cymharol a'i sail dystiolaeth ehangach ar draws y sector er mwyn datblygu rhagdybiaethau gofalus. Lle nad oedd data ymwelwyr ar gael, defnyddiwyd [Arolwg Ymwelwyr Cymru Llywodraeth Cymru 2019](#) a chyhoeddiad [Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2021](#). Bernir bod y ffynonellau eraill yma o ddata yn cynrychioli sail dystiolaeth addas i fod yn sail i'r asesiad hwn yn absenoldeb data sefydliadol wedi'i deilwra'n arbennig. Mae'n werth nodi nad yw'r cyfyngiad hwn yn berthnasol i amgueddfeydd, gan y defnyddiwyd yr Arolwg Sbotolau dros Amgueddfeydd 2024 fel y

ffynhonnell data cynradd. Bydd unrhyw fylchau y sylwyd arnynt o fewn data 2024 yn cael eu llenwi gan ddefnyddio data ar gyfer amgueddfeydd wnaeth ond ymateb yn 2022.

Yn seiliedig ar restr gychwynnol o 53 o sefydliadau yn y sector a ddarparwyd gan Cadw, dim ond 27 o gyfweiliadau lled-strwythuredig neu weithdai oedd yn bosib i'w cynnal gyda thros 40 o randdeiliaid. Er bod sefydliadau allweddol megis Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a Heneb i gyd wedi cyfranogi ar draws amrywiaeth o gyfweiliadau sesiynau gweithio a gweithdai, ni wnaeth nifer o sefydliadau ymgysylltu gyda'r cam casglu data ansoddol estynedig. Roedd yr ymgysylltiad hwn hefyd yn cynnwys cyfres o sesiynau wedi'u targedu er mwyn archwilio astudiaethau achos posib i'w cynnwys o fewn Adran 5, yn ogystal â nifer o sesiynau dilyn i fyny er mwyn archwilio agweddau o'r data meintiol a ddarparwyd mewn mwy o fanylder.

Dim ond Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chastell Aberteifi wnaeth ddarparu dadansoddiad demograffig o ymwelwyr fesul ymwelwyr am y dydd, ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr rhyngwladol. Gan hynny cafodd cyfartaledd wedi'i bwysoli o'r sefydliadau hyn eu cymhwyso i'r sail ymwelwyr ehangach er mwyn rhoi amcangyfrif o effeithiau gor-dwristiaeth. Mae'r dadansoddiad hwn o ymwelwyr yn ôl eu tarddiad wedi cael ei wirio i weld a yw'n gwneud synnwyr yn erbyn setiau data ehangach Croeso Cymru er mwyn darparu lefel ychwanegol o sicrwydd ansawdd, gyda'r broses hon yn cadarnhau addasrwydd dull AMION.

O fewn yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024, nid yw dadansoddiad manwl ar draws gwahanol gategoriâu gwario yn cael eu cynnwys. Gan hynny, nid yw'r ymatebion data meintiol a dderbyniwyd gan sefydliadau o fewn yr amgylchedd hanesyddol wedi cael eu defnyddio i adnabod cydrannau ar gyfartaledd a chydannau dangosol o wario ar draws meysydd gan gynnwys rheolaeth a gweithrediadau, gwaith adeiladu a chadwraeth, ac addysg ac ymchwil. Er na ellir cymharu'r cydrannau hyn yn uniongyrchol a'u bod yn gymwys o fewn cyd-destun y sector amgueddfeydd, maent wedi cael eu hadnabod fel y cydrannau dirprwyol mwyaf priodol yn absenoldeb data mwy manwl.

Defnyddiwyd data eilaidd hefyd lle mae'n angenrheidiol er mwyn cefnogi'r cyfrifiadau traweffaith economaidd. Yn benodol, byddai'n amhriodol rhagdybio y byddai'r holl wariant gan dwristiaeth yn gysylltiedig gydag ymweliadau i eiddo hanesyddol yn cael eu colli yn absenoldeb y safleoedd hynny. Mae Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 wedi cael ei ddefnyddio fel y ffynhonnell fwyaf diweddar a mwyaf priodol er mwyn amcangyfrif y gyfran o deithiau y gellir eu priodoli'n bennaf i'r amgylchedd hanesyddol. Yna cafodd Ystadegau Twristiaeth Ddomestig Prydain dros nos a dydd ar gyfer 2024 Llywodraeth Cymru ac Arolwg Teithiwr Rhyngwladol 2024 Swyddfa'r Ystadegau Gwladol (ONS) eu defnyddio i amcangyfrif gwariant fesul taith y gellir ei phriodoli. Byddai angen arolwg ymwelwyr mwy eang mewn amrywiol safleoedd amgylchedd hanesyddol er mwyn darparu data sydd wedi'i deilwra'n fwy arbennig na'r cyhoeddiadau yma sydd ar gael yn gyhoeddus.

2.4.2 Agwedd at ddiogelu trylwyredd ac osgoi cyfrif dwbl

Yn ogystal, cymerwyd gofal arbennig i osgoi cyfrif dwbl. Mae hwn yn ofyn canolog i ganllawiau gwerthuso ac yn arbennig o bwysig i'r astudiaeth hon oherwydd gall incwm, gwariant cyflogaeth, grantiau, twristiaeth a gweithgarwch cadwraeth orgyffwrdd ar draws yr

un sefydliadau ac asedau. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr asesiad hwn wedi'i strwythuro er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyfrif dwbl wedi digwydd, gydag addasiadau priodol yn cael eu gwneud er mwyn osgoi unrhyw bosibilrwydd o'r effaith hwn. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif beryglon o ran cyfrif dwbl a sut aed i'r afael â hwy.

Asesiad o werth economaidd - perthynas rhwng gwariant, cyflogaeth a GVA

Mae gwariant, cyflogaeth a GVA yn cynrychioli cydrannau gwahanol o fewn ôl-troed economaidd y sector a ni ddylid eu trin fel mesurau ychwanegol o werth. Ni ddylid disgwyl o'r rheidrwydd i wariant, cyflogaeth a GVA gynhyrchu gwerthoedd cyfwerth, gan eu bod yn mesur gwahanol elfennau o weithgarwch economaidd. Bydd eu perthynas yn amrywio rhwng sectorau yn dibynnu ar ffactorau megis dwysedd llafur, cynhyrchiant a chyfran y gwariant y cyfrifir amdani gan nwyddau a gwasanaethau canolraddol. Mae risg o oramcangyfrif effaith os caiff gwariant a ddefnyddir i amcangyfrif cyflogaeth a GVA ei ychwanegu at y mesurau hynny sy'n deillio. Caiff gwariant sefydliadol a thwristiaeth ei drin fel mesurau mewnbwn neu weithgarwch isorweddol. Caiff gwariant ei drosi'n gyflogaeth drwy ddefnyddio cymarebau trosiant-i-FTE, ac yna trosi cyflogaeth yn GVA drwy ddefnyddio cymarebau GVA lefel sector fesul FTE. Y ffigurau cyflogaeth a GVA sy'n deillio yw'r mesurau ôl-troed economaidd ac ni ychwanegir gwariant fel cydran ar wahân.

Asesiad o werth economaidd – grantiau

Mae'r gymysgedd o sefydliadau a gynhwysir yn y dadansoddiad yn creu peryg y gallai gwariant grant gael ei ddal gan y sefydliad sy'n dyfarnu a chan y sefydliad sy'n ei dderbyn. Yn ogystal â hyn, caiff grantiau eu defnyddio fel adnoddau cyhoeddus yn aml a gallant gael cost cyfle gysylltiedig, er bod y rhain yn gysyniadau gwahanol o ôl-troed economaidd gros y sector. Er mwyn cadw at ddull ofalus, mae'r holl wariant sy'n gysylltiedig â grantiau gan sefydliadau dyfarnu wedi'i hepgor o'r dadansoddiad. Mae hyn yn rhagdybio bod unrhyw grantiau'n cael eu dal o fewn gwariant y sefydliadau sy'n eu derbyn o fewn yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r asesiad yn brisiad sector yn hytrach na gwerthusiad gwerth am arian, ac nid yw'n ceisio amcangyfrif cost cyfle na chyllidol y cymorthdaliadau cyhoeddus. Dylai'r amcangyfrifon ôl-troed economaidd gael eu dehongli fel mesurau gros o'r gweithgarwch a gefnogir gan yr amgylchedd hanesyddol, yn hytrach nag amcangyfrifon o werth cymdeithasol net ar ôl rhoi cyfrif am gost cyfle cyllid cyhoeddus.

Asesu gwerth economaidd - cyflogau

O fewn yr asesiad traweffaith uniongyrchol, mae peryg y gallai cyflogaeth uniongyrchol gael ei or-ddatgan os yw'r ddau ffigwr cyflogaeth yn cael eu hadrodd gan sefydliadau a gwariant ar gyflogau'n cael eu cynnwys. Mae'r ffigurau cyflogaeth a ddarparwyd yn uniongyrchol gan sefydliadau wedi cael eu defnyddio. Mae gwariant gweithredol ar gyflogau gan hynny wedi cael eu hepgor o'r asesiad traweffaith sy'n seiliedig ar wariant.

Asesiad gwerth economaidd - rhent a gwasanaethau

Mae yna risg o gyfrif dwbl os yw gwariant rhent a gwasanaethau yn cael eu trin fel effaith uniongyrchol, gan fod y traweffeithiau hyn ar ochr y cyflenwr yn debygol o gal eu dal drwy gymhwyso llosgwyr y gadwyn gyflenwi. Gan hynny, mae gwariant rhent a gwasanaethau wedi cael eu hepgor o'r asesiad traweffaith economaidd uniongyrchol.

Asesiad traweffaith sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu a chadwraeth

Byddai cyfuno amcangyfrifon o'r brig i lawr o weithgarwch adeiladu gyda data lefel sefydliad o'r gwaelod i fyny yn creu perygl o gyfrif dwbl a gor-ddatgan y gweithgarwch a gefnogir gan y sector. Mae dull o'r gwaelod i fyny wedi'i gynnal er mwyn sicrhau cysondeb methodolegol. Mae hyn yn debygol o dan-ddatgan gwerth ehangach gweithgarwch sy'n gysylltiedig â chadwraeth, ond mae'n osgoi gor-ddatgan traweffeithiau drwy gyfuno amcangyfrifon gorgyffwrdd. Mae gwiriad gwneud synnwyr methodolegol hefyd wedi'i gynnal gan ddefnyddio amcangyfrif o'r brig i'r gwaelod.

Asesiad o draweffeithiau gwariant gor-dwristiaeth

Gall gwariant twristiaeth sy'n gysylltiedig gydag ymweliadau i safleoedd hanesyddol gynnwys gwariant ar y safle, megis tâl mynediad, manwerthu ac arlwyio, sydd eisoes yn cael eu dal drwy ddata ar lefel sefydliad. Mae incwm o dâl mynediad a manwerthu yr adroddwyd arno gan sefydliadau treftadaeth wedi'i dynnu o'r asesiad gor-dwristiaeth. Gan hynny, mae'r traweffaith twristiaeth yn canolbwyntio ar wariant oddi ar y safle y gellir ei briodoli i'r amgylchedd hanesyddol.

Asesiad o draweffeithiau gwariant gor-dwristiaeth

Gall gwariant twristiaeth sy'n gysylltiedig gydag ymweliadau i safleoedd hanesyddol gynnwys gwariant ar y safle, megis tâl mynediad, manwerthu ac arlwyio, sydd eisoes yn cael eu dal drwy ddata ar lefel sefydliad. Mae incwm o dâl mynediad a manwerthu yr adroddwyd arno gan sefydliadau treftadaeth wedi'i dynnu o'r asesiad gor-dwristiaeth. Gan hynny, mae'r traweffaith twristiaeth yn canolbwyntio ar wariant oddi ar y safle y gellir ei briodoli i'r amgylchedd hanesyddol.

Asesiad traweffaith ehangach, heb werth ariannol

Mae peth o'r dystiolaeth ansoddol a gyflwynwyd yn Adran 5 yn gysylltiedig gyda rhai o'r meysydd gwerth sydd wedi cael eu dadansoddi o ran gwerth ariannol. Er bod ychydig o'r themâu gwerth ehangach yn gorgyffwrdd gyda thraweffeithiau sy'n cael eu cyfleu fel gwerth ariannol, pwysleisir bod yr asesiad ansoddol hwn wedi cael ei gynnwys er mwyn cefnogi ystyriaeth fwy holistig o draweffaith. Lle mae'r gorgyffwrdd wedi'i nodi, credir bod yr asesiad ansoddol yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau o fewn y dull meintiol a'i fod yn defnyddio astudiaethau achos er mwyn dangos sut mae'r traweffaith hwn yn cael ei gynhyrchu yn ymarferol.

Asesu gwerth economaidd a chymdeithasol - gwahaniaethau rhwng amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd

Fel y nodwyd yn Adran 1.2, rhan o'r rhesymeg dros gynnwys amgueddfeydd yw'r nifer o amgueddfeydd sydd wedi'u lleoli mewn adeiladau hanesyddol. Gallai hyn arwain at risg o gyfrif dwbl os yw gwerth unigol amgueddfa wedi'i ddal o fewn asesiad yr amgylchedd hanesyddol a'r amgueddfa. O fewn yr asesiad hwn, mae'r holl amgueddfeydd, gan gynnwys y rhai a gynhwysir o fewn adeiladau hanesyddol, wedi eu hasesu yn rhan o edefyn amgueddfa y dadansoddiad

Asesiad o safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol - safleoedd sy'n cael eu cofnodi o fewn yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024 ac ymateb data meintiol y sefydliad

Mae yna nifer o safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, gan gynnwys Dinefwr a Neuadd a Gardd Erddig wnaeth ddarparu ymatebion i'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024, ac maent hefyd yn cael eu dal o fewn ymateb data sefydliadol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae yna risg cysylltiedig i'r safleoedd hyn gael eu cyfrif ddwywaith o fewn yr asesiad o'r amgylchedd hanesyddol a'r amgueddfeydd. Mae safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol wnaeth ddarparu ymatebion llawn i'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024 wedi cael eu hepgor o set data'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd wedi'u cysylltu gyda'r amgylchedd hanesyddol. Mae hyn yn sicrhau bod asesiad llawn o'r amgueddfeydd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r set data a gyhoeddwyd.

3. Gwerth economaidd amgylchedd hanesyddol Cymru

3.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r traweffaith economaidd a'r modelu gwerth sydd wedi digwydd ar gyfer y gweithgareddau a ddarparwyd ar draws yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Defnyddiwyd cymhareb trosiant i swyddi, neu wariant i gyflogaeth er mwyn amcangyfrif y berthynas rhwng gwariant a chyflogaeth o fewn yr amgylchedd hanesyddol. Fe'u defnyddir i amcangyfrif nifer y swyddi wedi'u cefnogi gan lefel penodol o weithgarwch economaidd ac nid yw'n cyfeirio at gadw gweithwyr. Gall rhai o'r cymarebau a ddefnyddiwyd o fewn yr asesiad hwn ymddangos yn isel, er y dylid nodi bod y cymarebau hyn yn canolbwyntio ar drosi gwariant yn gyflogaeth FTE yn hytrach na ffigwr gweithiwr gros. Mae'r asesiad yn ystyried y traweffeithiau canlynol:

- traweffeithiau sefydliadol uniongyrchol sy'n cynnwys
 - rheolaeth o ddydd i ddydd o'r amgylchedd hanesyddol a'r amgueddfeydd sy'n gysylltiedig gyda chyflogaeth, gwasanaethau ymwelwyr a meysydd eraill o gyflogaeth weithredol o fewn sefydliadau yn y sector, yn seiliedig ar ffurflenni cais am ddata a'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024
 - cyflogaeth sy'n gysylltiedig â gwaith adeiladu, cadwraeth a buddsoddiad cyfalaf, a amcangyfrifwyd drwy gymhwyso cymhareb trosiant i swyddi sy'n benodol i'r sector i wariant perthnasol a adroddwyd drwy'r ceisiadau am ddata
 - mae cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag addysg ac ymchwil cymdeithasol, gwyddonol, hanesyddol ac sy'n cael ei arwain gan bolisi, yn cael ei hamcangyfrif drwy gymhwyso cymarebau trosiant i swyddi i wariant perthnasol adroddwyd drwy'r ceisiadau am ddata
- traweffeithiau gor-dwristiaeth, yn seiliedig ar wariant oddi ar y safle sy'n gysylltiedig gyda theithiau penodol i Gymru lle mai'r amgylchedd hanesyddol oedd prif bwrpas yr ymweliad
- traweffeithiau anuniongyrchol, sy'n cwmpasu effeithiau'r gadwyn gyflenwi wedi'i gefnogi gan weithgarwch sefydliadol uniongyrchol a gwariant gor-dwristiaeth. Mae'r rhain wedi cael eu hamcangyfrif gan ddefnyddio lluosogwyr sector Math I o fframwaith mewnbwn-allbwn Cymru
- traweffeithiau a achoswyd, yn cwmpasu effeithiau gwariant y gweithlu wedi'u cefnogi gan weithgarwch uniongyrchol, anuniongyrchol ac sy'n gysylltiedig gyda thwristiaeth. Mae'r rhain wedi'u hamcangyfrif gan ddefnyddio lluosogwyr Math II, net yr effaith Math I, o fframwaith mewnbwn-allbwn Cymru

Unwaith mae cyflogaeth wedi'i hamcangyfrif ar gyfer pob categori traweffaith, mae cymarebau GVA am bob swydd gyfwerth ag amser llawn ar lefel y sector yng Nghymru wedi cael eu cymhwyso er mwyn trosi traweffeithiau cyflogaeth yn GVA. Mae defnyddio trosiadau o'r fath yn cynrychioli dull cyffredin o fewn maes asesu traweffaith economaidd a gwerthusiad o fewn y sector.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae canlyniadau'n cael eu cyflwyno ar wahân ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd, ochr yn ochr ag amcangyfrif cyfanredol ar gyfer y sector amgylchedd hanesyddol cyffredinol yng Nghymru. Cyflwynir yr holl ffigyrau ym mhrisiau 2026/27, gydag unrhyw drosoglwyddiadau'n cael eu paratoi gan ddefnyddio Datchwyddyddion Cynnyrch Domestig Gros ONS.

3.2 Traweffeithiau uniongyrchol

Mae gwerth economaidd uniongyrchol yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn adlewyrchu ôl troed economaidd gweithgarwch beunyddiol y sector. Mesurir graddfa'r gweithgarwch economaidd o safbwynt GVA a chyflogaeth ac mae wedi'i asesu gan ddefnyddio cyfuniad o ddata meintiol a ddefnyddiwyd ar lefel sefydliad a'r Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd 2024. Mae traweffaith uniongyrchol gweithgarwch o ddydd i ddydd yn y sector wedi'i rannu'n nifer o gydrannau fel y nodir isod. Mae'r gwariant oddi ar y safle gan dwristiaid wedi cael eu hasesu ar wahân.

3.2.1 Rheoli, gwasanaethau ymwelwyr a gweithrediadau

Mae angen amrywiaeth o reoli, cefnogaeth a gwasanaethau ymwelwyr er mwyn cefnogi gweithrediad o ddydd i ddydd yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'r rolau hyn yn cynnwys cymysgedd o wasanaethau blaen y tŷ a chefn y tŷ ac i gyd-fynd â'r rhain ceir lefel sylweddol o weithgarwch gwirfoddoli. Hepgorwyd traweffeithiau gwirfoddoli o'r fath o'r dadansoddiad hwn ac yn hytrach, cânt eu hadlewyrchu o fewn yr asesiad Gwerth Cymdeithasol a gynhwysir yn Adran 4.

Roedd y ffurflen cais am ddata yn cofnodi'r nifer o swyddi gweithredol a gefnogwyd yn uniongyrchol gan sefydliadau treftadaeth. Mae swyddi tymhorol a rolau rhan amser eraill wedi'u trosi'n swyddi sydd gyfwerth ag amser llawn, gyda phob FTE tymhorol yn cael ei drin fel bod cyfwerth â 0.5 o FTE parhaol. Mae hyn yn adlewyrchu'r nifer o rolau sy'n gwasanaethu ymwelwyr a rolau gweithredol nad ydynt yn cael eu cynnal ar draws y flwyddyn gyfan ac sy'n defnyddio amcangyfrif blynyddol sy'n seiliedig ar dymor gweithredu neu batrwm cyflogaeth chwe mis ar draws yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'r amcangyfrif fesul blwyddyn hwn yn cynrychioli dull gofalus gan nodi sut mae rhai sefydliadau ac asedau'n darparu gweithgareddau ar draws tymor gweithredu sy'n mynd y tu hwnt i 6 mis. Mae dadleoli oddi allan i Gymru wedi cael ei gymryd i ystyriaeth drwy gymhwyso'r gyfran o staff sy'n cael eu hadrodd fel bod yn breswylwyr yng Nghymru.

Mae cyflogaeth sy'n gysylltiedig gyda gwariant gwasanaethau ymgysylltiad cyhoeddus a gwasanaethau ymwelwyr wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cymarebau trosiant i swyddi ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'r cymarebau trosiant i swyddi yma wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfuniad o'r Arolwg Busnes Blynyddol a'r Gofrestr Busnes ONS a'r Arolwg Cyflogaeth. Oni bai y nodir fel arall, mae'r cymarebau trosiant i swyddi a gyflwynwyd yn Nhabl 2 wedi cael eu defnyddio, sy'n adlewyrchu'r gymhareb trosiant i FTE sy'n gysylltiedig gyda 'Llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd a gweithgareddau diwylliannol eraill'.

Mae cymarebau GVA lefel sector fesul swyddi FTE yng Nghymru wedi'u cymhwyso er mwyn trosi traweffeithiau cyflogaeth yn GVA, gan ddefnyddio set data diweddaraf GVA fesul diwydiant (SIC2007) Llywodraeth Cymru. Oni bai y nodir fel arall, mae'r cymarebau GVA

fesul FTE yn Nhabl 2 wedi cael eu defnyddio, sy'n adlewyrchu'r gymhareb sy'n gysylltiedig gyda 'Llyfrgelloedd, archifau, amgueddfeydd a gweithgarwch diwylliannol arall'.

Ar y sail hon, amcangyfrifir bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn cefnogi 2,630 o swyddi rheoli, gwasanaethau ymwelwyr a swyddi gweithredol, gan gynhyrchu £50.4 miliwn o GVA y flwyddyn.

Tabl 2: traweffeithiau rheoli, gwasanaethau ymwelwyr a gweithrediadau

	Amgylchedd hanesyddol	Amgueddfeydd	Cyfanswm sector amgylchedd hanesyddol
Cymarebau Trosiant i FTE	£11,557	£11,557	£11,557
Cyflogaeth (FTE)	1,267	1,363	2,630
GVA fesul cymhareb FTE	£19,168	£19,168	£19,168
GVA (£m) (prisiau 2026/27)	£24.3	£26.1	£50.4

Ffynhonnell: AMION Consulting

Mae'r amcangyfrif hwn wedi cael ei wirio o ran gwneud synnwyr yn erbyn data cyflogaeth gan Gofrestr Busnes y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Arolwg Cyflogaeth (BRES). Dylid nodi bod BRES yn talgrynnu cyflogaeth i'r 500 agosaf ar gyfer codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) Cymru.

Mae BRES yn dynodi bod gweithgareddau amgueddfa (SIC 9102) yn cefnogi oddeutu 1,500 o swyddi yng Nghymru, tra mae gweithrediad safleoedd hanesyddol ac adeiladau ac atyniadau ymwelwyr tebyg (SIC 9103) yn cefnogi oddeutu 500 o swyddi.

Mae'r ffigyrau BRES yma yn is na'r amcangyfrif a gynhyrchwyd drwy'r asesiad hwn. Mae hyn i'w ddisgwyl, gan fod y diffiniad sy'n cael ei gymhwyso yn yr astudiaeth hon yn ehangach na'r ddau god Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) ac maent yn dal cyflogaeth berthnasol o fewn Cadw, awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau a sefydliadau eraill a allai fod o fewn dosbarthiad arall yn BRES. Mae'r gymhareb felly'n darparu ychydig o sicrwydd ynghylch pa mor gadarn yw'r canlyniadau hyn, ac ar yr un pryd yn tynnu sylw at gyfyngiadau dibynnu'n unig ar ddata cyflogaeth sy'n seiliedig ar SIC sydd ar gael yn gyhoeddus er mwyn deall graddfa'r sector.

3.2.2 Adeiladu a chadwraeth

Bu i'r ffurflen cais am ddata ddal nifer o staff adeiladu a chadwraeth parhaol sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan sefydliadau treftadaeth. Yn ogystal, darparodd sefydliadau wybodaeth am wariant oedd yn gysylltiedig gyda gwaith adeiladu, cynnal a chadw a gweithgarwch cadwraeth. Ar gyfer amgueddfeydd, nid yw dadansoddiad manwl o wariant fesul categori gwario wedi eu cynnwys o fewn yr Arolwg Sbotolwg ar Amgueddfeydd 2024. Gan hynny, mae dosbarthiad swyddi a gwariant ar draws gwahanol gategorïau gwario a

sectorau o'r ceisiadau am ddata ar gyfer sefydliadau amgylchedd hanesyddol wedi'u defnyddio fel sail ddirprwyol i gynhyrchu asesiad mwy manwl.

Mae'r gwariant hwn yn cefnogi lefel ehangach o weithgarwch economaidd ar draws y sector adeiladu yng Nghymru. Er mwyn amcangyfrif yr effeithiau hyn, mae cymhareb trosiant i swydd ar gyfartaledd ar gyfer codi adeiladau, gweithgarwch adeiladu arbenigol a gweithgareddau gwasanaethau i adeiladau a thirweddau yng Nghymru wedi eu cymhwyso i'r gwariant yr adroddwyd arno. Mae'r asesiad yn cymryd i ystyriaeth lleoliad y gwariant ac i ba raddau mae'r gwariant yn cael ei gadw o fewn Cymru.

Amcangyfrifir bod gweithgarwch adeiladu a chadwraeth sy'n uniongyrchol gysylltiedig gyda'r sector amgylchedd hanesyddol yn cefnogi 730 o swyddi, gan gynhyrchu £50.4 miliwn o GVA y flwyddyn. Mae'r cymarebau perthnasol a ddefnyddir o fewn y cyfrifiad hwn wedi'u hamlinellu isod, yn seiliedig ar y ffynonellau a nodwyd yn flaenorol.

Tabl 3: traweffeithiau Adeiladu a Buddsoddiad Cyfalaf

	Amgylchedd hanesyddol	Amgueddfeydd	Cyfanswm sector amgylchedd hanesyddol
Cymarebau trosiant i FTE	£139,153	£139,153	£139,153
Cyflogaeth (FTE)	595	135	712
GVA fesul cymhareb FTE	£69,056	£69,056	£69,056
GVA (£m) (prisiau 2026/27)	£41.1	£9.3	£50.4

Ffynhonnell: AMION Consulting

Dylid nodi bod y dull 'o'r gwaelod i fyny' yma ond yn cofnodi'r gweithgarwch adeiladu a chadwraeth y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r sefydliadau treftadaeth a gynhwysir yn yr asesiad. Dylai'r amcangyfrif felly gael ei ddehongli fel y gweithgarwch a gefnogir gan sefydliadau sy'n gweithredu o fewn y sector amgylchedd hanesyddol, yn hytrach na chyfanswm y farchnad adeiladu sy'n gysylltiedig gyda threftadaeth yng Nghymru. Mae'n debygol o dan-ddatgan y raddfa ehangach o weithgarwch, gan nad yw'n cofnodi gwaith yr ymgwymerwyd ag o ar adeiladau rhestredig sydd o dan berchnogaeth a rheolaeth breifat neu asedau hanesyddol eraill oddi allan i boblogaeth yr astudiaeth.

Fel gwiriad synnwyr ychwanegol, mae asesiad lefel uchel wedi cael eu hymgydryd ag o er mwyn ystyried graddfa'r gweithgarwch sy'n gysylltiedig gyda threftadaeth oddi mewn i Gymru. Er nad yw codau SIC yn gwahaniaethu gwaith atgyweirio treftadaeth a chadwraeth o'r gweithgarwch adeiladu ehangach, mae'r dadansoddiad yn defnyddio ystadegau data BRES a [Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu 2024/25](#) er mwyn darparu arwydd o raddfa bosib y gweithgarwch.

Mae'r Arolwg Chwarterol Rheoli Datblygu 2024/25 yn adnabod 821 o geisiadau caniatâd adeilad rhestredig a dderbyniwyd ar draws Cymru, sy'n cynrychioli oddeutu 4% o'r holl geisiadau cynllunio (20,689). Mae cymhwyso'r gyfran hon i'r gwaith adeiladu perthnasol a'r

codau SIC perthnasol ar gyfer y sector yn darparu gwiriad synnwyr ffin uchaf o weithgarwch adeiladu posib sy'n gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol. Ar y sail hon, mae'r dadansoddiad yn awgrymu y gallai gwaith adeiladu a buddsoddiad cyfalaf sy'n gysylltiedig gyda threftadaeth gefnogi hyd at 1,920 o swyddi a £132.6 miliwn o GVA ar draws Cymru.

Ni ddylid dehongli hyn fel amcangyfrif manwl gan fod data SIC yn cofnodi gweithgarwch sylweddol sydd heb fod o fewn y sector treftadaeth, tra mae ceisiadau caniatâd adeiladau rhestredig ond yn dal elfen ffurfiol, wedi'i rheoleiddio o waith i asedau hanesyddol. Nid yw nifer o weithgarwch atgyweirio, cynnal a chadw ac addasu angen caniatâd adeiladau rhestredig ac nid yw gwaith i asedau sydd heb eu dynodi yn cael eu dal yn llawn drwy'r mesuriad yma. Fodd bynnag, mae'n rhesymol rhagdybio bod gwir raddfa traweffeithiau adeiladu a buddsoddiadau cyfalaf sy'n gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn debygol o eistedd rhwng amcangyfrif ceidwadol uniongyrchol AMION o 730 o swyddi a'r amcangyfrif uwch o'r brig i'r gwaelod yma o 1,920 o swyddi.

3.2.3 Addysg ac ymchwil

O fewn sefydliadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru neu sy'n gweithredu oddi mewn iddo, cofnodir lefelau sylweddol o gyflogaeth ar draws ffwythiannau allweddol sy'n gysylltiedig gydag addysg, polisi, ymchwil ac eiriolaeth. Cyflwynir gwerth economaidd uniongyrchol gweithgarwch o'r fath isod, er bod gwerth llawn gweithgarwch o'r fath yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r traweffeithiau meintiol yma. Gellir canfod manylion pellach am werth gweithgarwch o'r fath o fewn Adran 4.

Bu i'r ffurflen cais am ddata ddal nifer y staff addysg barhaol sy'n cael eu cyflogi gan sefydliadau treftadaeth, yn ogystal â'r rhai sy'n canolbwyntio'n bennaf ar gwblhau ystod o waith ymchwil cymdeithasol, gwyddonol, hanesyddol ac sy'n seiliedig ar bolisi. Yn ogystal, darparodd sefydliadau wybodaeth ar wariant sy'n gysylltiedig gydag addysg, dysgu, gwaith gweithgarwch estyn allan ac ymchwil ar draws yr amgylchedd hanesyddol. Fel uchod, mae peth o'r data a gasglwyd sy'n gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol wedi'i gymhwyso i ddata amgueddfeydd lle nad oedd dadansoddiadau manwl ar gael. Mae'n werth nodi nad yw'r asesiad hwn yn cynnwys gweithgarwch Addysg Uwch sy'n cael ei ddarparu'n ffurfiol. Er bod prifysgolion a darparwyr eraill yn gwneud cyfraniad pwysig i sgiliau treftadaeth ac ymchwil, does dim set data cyson na ffynhonnell sy'n galluogi i fyfyrwyr neu staff dysgu gael eu priodoli'n uniongyrchol i'r amgylchedd hanesyddol. Er enghraifft, gall cyrsiau perthnasol gwmpasu nifer o ddisgyblaethau a gall staff dysgu hefyd fod yn gweithio mewn sawl adran, gan greu peryg o gyfrif dwbl a gor-ddatgan traweffaith. Gan hynny, mae gweithgarwch dysgu prifysgolion wedi eu hepgor.

Mae'r gwariant hwn yn cefnogi gweithgarwch economaidd ehangach ar draws y sector addysg ac ymchwil yng Nghymru. Er mwyn amcangyfrif yr effeithiau hyn, mae cymhareb trosiant i FTE ar gyfer y sector addysg yng Nghymru o £21,061 wedi'i chymhwyso i'r gwariant yr adroddwyd amdano. Mae'r asesiad yn cymryd i ystyriaeth lleoliad y gwariant ac i ba raddau mae'r gwariant yn cael ei gadw o fewn Cymru. Amcangyfrifir bod gweithgarwch addysg ac ymchwil sy'n uniongyrchol gysylltiedig gyda'r sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn cefnogi 1,115 o swyddi, gan gynhyrchu £66.2 miliwn o GVA y flwyddyn.

Tabl 4: traweffeithiau addysg ac ymchwil

	Amgylchedd hanesyddol	Amgueddfeydd	Cyfanswm sector amgylchedd hanesyddol
Cymarebau trosiant i FTE	£21,061	£21,061	£21,061
Cyflogaeth (FTE)	691	424	1,115
GVA fesul cymhareb FTE	£59,323	£59,323	£59,323
GVA (£m) (prisiau 2026/27)	£41.0	£25.2	£66.3

Ffynhonnell: AMION Consulting

3.2.4 Traweffaith uniongyrchol cyffredinol

Fel y dangosir yn y tabl isod, mae gweithgarwch o ddydd i ddydd ar draws yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru'n cefnogi dros 4,450 o swyddi ac yn cyfrannu dros £167 miliwn o GVA i'r economi genedlaethol. Mae oddeutu £103 miliwn o'r gwerth economaidd uniongyrchol cyffredinol yn gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol craidd, tra mae oddeutu £60 miliwn o draweffaith yn gysylltiedig gydag amgueddfeydd. Mae wedi'i nodi na fydd ffigyrau cyflogaeth uniongyrchol ar gyfer amgueddfeydd a gynhwysir o fewn yr adran hon o reidrwydd yn alinio gyda'r ffigyrau yr adroddwyd arnynt a gynhwysir o fewn yr Arolwg Sbotolwg ar Amgueddfeydd 2024, gan fod y ffigyrau hyn yn cynrychioli allbwn ymarfer modelu traweffaith economaidd a'i fod hefyd yn cynnwys y gyflogaeth sy'n gysylltiedig gyda gwariant yr adroddwyd arno ac a gwblhawyd gan amgueddfeydd sydd wedi'u hachredu.

Tabl 5: traweffaith uniongyrchol cyffredinol

	Amgylchedd hanesyddol	Amgueddfeydd	Cyfanswm sector amgylchedd hanesyddol
Cyflogaeth (FTE)	2,553	1,923	4,476
GVA (£m) (prisiau 2026/27)	£106.4	£60.6	£167.0

Ffynhonnell: AMION Consulting

3.3 Traweffeithiau gwariant twristiaeth

Mae ystod eang yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn ffurfio rhan allweddol o'r seilwaith sylfaenol sy'n cefnogi apêl, hynodrwydd a gwelededd llefydd. Yn hytrach na gweithredu dim ond fel prif yrwyr twristiaeth, mae'r amgylcheddau hyn yn helpu i lunio cymeriad a hunaniaeth trefi, tirweddau a chyrchfannau sy'n dibynnu ar ymwelwyr, ansawdd lle ac apêl ddiwylliannol. Er mwyn adlewyrchu traweffeithiau economaidd rôl ehangach yr amgylchedd hanesyddol, mae'r dadansoddiad canlynol yn archwilio gwerth gweithgarwch uniongyrchol ar y safle a gwariant oddi ar y safle ar lety, bwyd a diod, trafnidiaeth, a gwasanaethau ymwelwyr eraill.

Mae'r niferoedd amcangyfrifedig o ymwelwyr ar gyfer safleoedd amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd wedi eu cyflwyno isod fesul math o ymwelydd, ac maent yn seiliedig ar flwyddyn gyfan weithredol. Mae cyfanswm y niferoedd o ymwelwyr ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol yn seiliedig ar gyfuniad o ymatebion i ymarferion casglu data cynradd AMION ac ymchwil ehangach o'r ddesg er mwyn adnabod amcangyfrifon niferoedd ymwelwyr priodol, gyda ffigwr cyfanswm amgueddfeydd yn deillio o'r Arolwg Sbotolwg ar Amgueddfeydd 2024. Mae'r cyfrannau tarddiad ymwelwyr a ddangosid yn y tabl isod yn seiliedig ar gyfartaledd wedi'i bwysoli o'r sefydliadau yn y sector wnaeth ddarparu dadansoddiadau demograffig a daearyddol o ymwelwyr fesul ymwelwyr dydd, ymwelwyr dros nos ac ymwelwyr rhyngwladol. Mae'r sefydliadau hyn yn cynnwys Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Rhagdybir gan hynny bod mwy o hyder yn yr ystadegau hyn a'u priodoldeb ar gyfer eu cymhwyso ar draws sampl ehangach o safleoedd amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd, yn arbennig felly o gofio eu harwyddocâd o fewn y sector yn genedlaethol. Mae'r cyfrannau hyn wedi eu cymhwyso i'r niferoedd ymwelwyr ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd yng Nghymru.

Tabl 6: nifer yr ymweliadau a gofnodwyd i amgylchedd hanesyddol Cymru

	Amgylchedd hanesyddol	Amgueddfeydd	Cyfanswm sector amgylchedd hanesyddol
Preswylwyr o Gymru	4,658,015	1,838,416	6,496,431
Teithiau diwrnod yn y DU	75,944	29,974	105,918
Teithiau dros nos yn y DU	4,497,703	1,775,145	6,272,848
Rhyngwladol	254,053	100,269	354,322
Cyfanswm	9,485,715	3,743,804	13,229,519

Ffynhonnell: AMION Consulting a Arolwg Sbotolwg ar Amgueddfeydd 2024

At bwrpas yr asesiad traweffaith economaidd, mae'n angenrheidiol amcangyfrif y gyfran o variant gan ymwelwyr sy'n wirioneddol ychwanegol ac y gellir ei briodoli i'r amgylchedd hanesyddol. Ni fydd pob ymweliad â'r amgylchedd hanesyddol neu amgueddfeydd wedi cynhyrchu gwariant ychwanegol i Gymru. Mae'n bosib bod peth gwariant wedi cael ei ddadleoli o weithgarwch arall o fewn Cymru, gyda rhai ymwelwyr, o bosib, wedi teithio i Gymru er gwaethaf eu hymgysylltiad gyda'r amgylchedd hanesyddol.

Mae gwariant gan breswylwyr yng Nghymru wedi'i drin fel cael ei ddadleoli o fewn Cymru ac felly wedi'i hepgor o'r asesiad gor-dwristiaeth. Mewn geiriau eraill, mae'n rhagdybio y gallai arian sy'n cael ei wario gan breswylwyr o Gymru ar ymweliadau i'r amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd yng Nghymru fod wedi cael ei wario yn rhywle arall o fewn economi Cymru. Mae hyn yn osgoi priodoli gweithgarwch economaidd i'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru a allai fod wedi digwydd beth bynnag. Mae hon yn rhagdybiaeth geidwadol gan y gallai rhai preswylwyr, yn gredadwy, fod wedi teithio oddi allan i Gymru a gwario eu harian mewn economi arall gan arwain at ddadleoli o economi Cymru.

Mae ymweliadau dydd yn y DU i safleoedd amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd wedi eu trin fel rhywbeth sy'n ychwanegol ac y gellir ei briodoli i'r sector. Mae'r ymwelwyr hyn wedi gwneud taith am y dydd unigol yn benodol i safle yng Nghymru, ac yn absenoldeb y safle hwnnw, mae'n annhebygol y byddai'r gwariant wedi digwydd yn yr un lleoliad.

Ar gyfer ymwelwyr dros nos, mae addasiad priodoli pellach wedi'i gymhwyso. Mae hyn yn cydnabod nad yw ymweld â'r amgylchedd hanesyddol neu amgueddfa o reidrwydd yn golygu bod y daith ehangach i Gymru wedi'i chymell yn bennaf gan dreftadaeth. Gan hynny, defnyddiwyd [Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019](#) er mwyn amcangyfrif cyfran y teithiau lle mae ymweld â llefydd, safleoedd ac atyniadau hanesyddol ac wedi'u hadnabod fel prif bwrpas yr ymweliad. Mae hyn wedi'i ddefnyddio fel y sail tystiolaeth fwyaf diweddar a mwyaf priodol i gefnogi amcangyfrif o'r nifer o deithiau dros nos i Gymru y gellir eu priodoli'n rhesymegol i'r amgylchedd hanesyddol.

Ar gyfer ymwelwyr dros nos i'r DU, mae'r addasiad hwn wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar gyfran y rhai sy'n gwneud teithiau domestig dros nos gyda'r prif bwrpas yn gysylltiedig â llefydd / safleoedd hanesyddol a chrefyddol / atyniadau a thirweddau / cefn gwald, ac ar yr un pryd gwneud addasiadau ar gyfer rhai sydd wedi gwneud ychydig o ymweld â llefydd yn gyffredinol. Mae'r dull hwn yn adnabod oddeutu 1.65 o deithiau domestig dros nos gyda'r prif bwrpas yn gysylltiedig gydag atyniadau amgylchedd hanesyddol a thirweddau. Mae hyn yn cyfateb i fod 26% o ymweliadau dros nos y DU i'r amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd yn cael eu trin fel rhai y gellir eu priodoli at bwrpas amcangyfrif traweffeithiau gor-dwristiaeth.

Ar gyfer ymwelwyr dramor, mae'r un dull yn adnabod oddeutu 0.25 miliwn o deithiau rhyngwladol gyda'r prif bwrpas yn gysylltiedig gydag atyniadau amgylchedd hanesyddol a thirweddau. Mae hyn yn cyfateb i 70% o ymweliadau rhyngwladol i safleoedd amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd yn cael eu trin fel rhai y gellir eu priodoli. Mae'r gyfran sylweddol uwch yma yn adlewyrchu'r ffaith nad yr holl ymwelwyr rhyngwladol i Gymru yw'r man cychwynnol, ond yn hytrach ymwelwyr rhyngwladol sydd eisoes wedi eu cofnodi ar draws yr amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd.

Mae'r dull o briodoli wedi'i grynhoi isod.

Tabl 7: ymweliadau twristiaeth y gellir eu priodoli

	Cyfanswm ymwelwyr i'r safle	Dull o briodoli	Ymweliadau y gellir eu priodoli
Preswylwyr o Gymru	6,496,431	Wedi'u trin fel bod wedi'u dadleoli yng Nghymru	0
Teithiau diwrnod yn y DU	105,918	Wedi'u trin fel teithiau diwrnod penodol i safleoedd amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd	105,918
Teithiau dros nos yn y DU	6,272,848	Wedi'i addasu gan ddefnyddio tystiolaeth Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ynghylch prif bwrpas y daith	1,647,204
Rhyngwladol	354,322	Wedi'i addasu gan ddefnyddio tystiolaeth Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 ynghylch prif bwrpas y daith	246,402

Ffynhonnell: AMION Consulting

Yn absenoldeb data penodol wedi'i gysylltu gyda nifer yr arosiadau dros nos sy'n gysylltiedig gydag ymgysylltiad â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, mae'r rhagdybiaethau gwariant fesul taith wedi cael eu cymhwyso (prisiau 2026/27). Cafodd y ffigyrau hyn eu cyfrifo gan ddefnyddio ystadegau twristiaeth Llywodraeth Cymru a'r [Arolwg Teithiwr Rhyngwladol 2024](#):

- ymwelydd diwrnod y DU: £47 y daith
- ymwelydd dros nos y DU: £306 y daith
- ymwelydd rhyngwladol: £640 y daith.

Fel yr argymhellir gan Croeso Cymru, mae'r ffigwr gwariant cyfartalog yma fesul ymweliad wedi hepgor pwrpas teithiau eraill megis busnes, astudio a VFR. Mae gwariant o dâl mynediad a phrynu ar y safle wedi'i ddiddymu o gyfanswm y cyfrifiad gwariant gan dwristiaid er mwyn osgoi cyfrif dwbl. Crynhoir sut mae cyfanswm y gwariant oddi ar y safle yn y tabl isod, sydd yn dilyn hyn wedi'i ddefnyddio fel sail y prif asesiad traweffaith economaidd.

Tabl 8: gwariant twristiaeth y gellir ei briodoli

Defnyddir ychydig ar lawfer yn y tabl hwn, [x] = nid yw'r gwerth hwn yn berthnasol ar gyfer adrodd yng nghyd-destun y tabl hwn.

	Ymweliadau y gellir eu priodoli	Rhagdybiaeth gwariant fesul taith	Gwariant gros y gellir ei briodoli (£m)	Gwariant oddi ar y safle y gellir ei briodoli (£m)
Amgylchedd hanesyddol				
Preswylwyr o Gymru	0	[x]	[x]	[x]
Teithiau diwrnod yn y DU	75,944	£47	£3.5	[x]
Teithiau dros nos yn y DU	1,181,064	£306	£361.3	[x]
Rhyngwladol	176,673	£640	£113.0	[x]
Cyfanswm	1,433,681	[x]	£477.9	£432.6
Amgueddfeydd				
Preswylwyr o Gymru	0	[x]	[x]	[x]
Teithiau diwrnod yn y DU	29,974	£47	£1.4	[x]
Teithiau dros nos yn y DU	466,140	£306	£142.6	[x]
Rhyngwladol	69,279	£640	£44.6	[x]
Cyfanswm	565,843	[x]	£188.6	£184.8

Ffynhonnell: AMION Consulting

Mae'r gwariant dilynol y gellir ei briodoli wedi'i drosi i gyflogaeth gan ddefnyddio'r gymhareb trosiant i FTE ar gyfer llety a gweithgarwch gwasanaeth bwyd, fel sail ddirprwyol ar gyfer sectorau twristiaeth perthnasol. Mae'r GVA wedyn wedi'i amcangyfrif gan ddefnyddio cymarebau GVA lefel sector yng Nghymru am bob FTE ar gyfer yr un sector llety a gwasanaethau bwyd. Cyflwynir y traweffeithiau gor-dwristiaeth dilynol isod.

Amcangyfrifir bod traweffeithiau gor-dwristiaeth y gellir eu priodoli i'r amgylchedd hanesyddol yn cynhyrchu dros £615 miliwn o wariant oddi ar y safle bob blwyddyn. Mae'r gwariant hwn yn cefnogi 10,317 o swyddi economi dwristiaid gan gyfrannu £355.7 miliwn o GVA i economi Cymru. O fewn y canfyddiadau hyn, mae'n werth nodi bod cyfanswm yr ymweliadau i safleoedd Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cyfateb i 16% o'r holl ymweliadau a gofnodwyd i amgylchedd hanesyddol Cymru. Yn seiliedig ar y gyfran hon sy'n

gysylltiedig i Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, amcangyfrifir bod gweithgarwch sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr a thwristiaeth i'r sefydliadau hyn yn unig yn cefnogi bron i 1,650 o swyddi a £57 miliwn o GVA y flwyddyn.

Tabl 9: traweffeithiau twristiaeth

	Amgylchedd hanesyddol	Amgueddfeydd	Cyfanswm sector amgylchedd hanesyddol
Gwariant oddi ar y safle y gellir ei briodoli (£m)	£432.6	£184.8	£617.3
Cymarebau trosiant i FTE	£59,836	£59,836	£59,836
Cyflogaeth (FTE)	7,229	3,088	10,317
GVA fesul cymhareb FTE	£34,478	£34,478	£34,478
GVA (£m) (prisiau 2026/27)	£249.2	£106.5	£355.7

Ffynhonnell: AMION Consulting

3.4 Traweffeithiau anuniongyrchol

Mae proffiliau gwariant gan gyflenwyr yn adlewyrchu'r patrwm o nwyddau a gwasanaethau a brynwyd gan sefydliadau sy'n gweithredu o fewn yr amgylchedd hanesyddol. Mae gwariant yn y sector yn ymestyn drwy gadwyn gyflenwi sylweddol ac felly'n cyfrannu at dwf GVA pellach a chreu swyddi ar draws Cymru.

Mae'r asesiad yn defnyddio [tablau dadansoddi mewnbwn-allbwn diweddaraf a lluosyddion economaidd dangosol](#), a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2026. Mae'r rhain yn darparu amcangyfrifon ar lefel sector o berthnasoedd galw a chyflenwi ar draws dros 50 o sectorau o blith economi Cymru, gan alluogi i draweffeithiau uniongyrchol gael eu trawsnewid yn effeithiau cyflogaeth anuniongyrchol ac a achoswyd gan GVA ehangach. Mae AMION wedi adolygu'r lluosyddion cyhoeddedig yma yn erbyn lluosyddion sydd wedi'u teilwra'n arbennig ac a ddatblygwyd ar gyfer astudiaethau eraill. Mae'r profi hwn y rhoi sicrwydd bod lluosyddion cyhoeddedig Llywodraeth Cymru yn gynhwysfawr ac y briodol ar gyfer amcangyfrif traweffaith uniongyrchol, anuniongyrchol a achoswyd yn yr astudiaeth hon.

Fodd bynnag, [mae nifer o gyfyngiadau'n gysylltiedig â defnyddio'r lluosyddion hyn](#). Mae modelau mewnbwn-allbwn yn tybio bod cysylltiadau sefydlog a llinol rhwng mewnbynnau ac allbynnau ac nid yw'n rhoi cyfrif llawn am gyfyngiadau ochr gyflenwi, newidiadau mewn prisiau neu gyflogau, newidiadau rhwng mewnbynnau, arbedion maint neu ymatebion ar sail ymddygiad. Dylai'r canlyniadau felly gael eu dehongli fel amcangyfrifon dangosol o raddfa bosibl gweithgarwch economaidd ehangach a gefnogir, yn hytrach nag effeithiau cywir neu a arsylwir yn uniongyrchol. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi'u hystyried drwy gydol ar yr asesiad ac mae'r lluosyddion wedi'u cymhwyso i feysydd gweithgarwch wedi'u dadgyfuno'n gymharol yn unig.

Mae'r profi hwn y rhoi sicrwydd bod lluosyddion cyhoeddedig Llywodraeth Cymru yn gynhwysfawr ac y briodol ar gyfer amcangyfrif traweffaith uniongyrchol, anuniongyrchol a achoswyd yn yr astudiaeth hon. Mae'r lluosogwyr Math I wedi cael eu cymhwyso i'r edefyn priodol o draweffaith uniongyrchol neu sy'n gysylltiedig gyda thwristiaeth, ac fe'u rhestrir isod.

Tabl 10: lluosogwyr Math I

	Lluosogwr Math I GVA	Lluosogwr Math I Cyflogaeth
Creadigol, celfyddydau, adloniant, llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau	1.24	1.11
Adeiladu	1.43	1.43
Addysg	1.13	1.16
Llety a gwasanaethau bwyd	1.19	1.09

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Unwaith mae'r effeithiau lluosogwyr yma wedi eu cymhwyso i'r traweffeithiau uniongyrchol a gor-dwristiaeth, amcangyfrifir bod yr amgylchedd hanesyddol yn cefnogi 1,710 o swyddi pellach yn y gadwyn gyflenwi, gan gynhyrchu bron i £112 miliwn o GVA y flwyddyn.

Tabl 11: traweffeithiau'r gadwyn gyflenwi

	Amgylchedd hanesyddol	Amgueddfeydd	Cyfanswm sector amgylchedd hanesyddol
Traweffeithiau uniongyrchol a thwristiaeth cyfunol (FTE)	9,782	5,011	14,793
Traweffeithiau cadwyn gyflenwi / anuniongyrchol (FTE)	1,156	554	1,710
Traweffeithiau uniongyrchol a thwristiaeth cyfunol (FTE)	£355.6	£167.1	£522.7
Traweffeithiau'r gadwyn gyflenwi / GVA anuniongyrchol (£m) (prisiau 2026/27)	£76.2	£36.7	£112.8

Ffynhonnell: AMION Consulting

3.5 Traweffeithiau a achoswyd

Mae diffinio traweffeithiau economaidd sy'n gysylltiedig gyda gwariant gweithlu yn gofyn am benderfyniad ynghylch y graddau y mae cyflogaeth yn cael ei gadw yng Nghymru, a rhagdybiaeth bod y gweithlu hwn yn bennaf yn gwario eu cyflogau o fewn y wlad.

Dangosir y lluosogwyr Math II perthnasol ar gyfer yr asesiad hwn isod, ac maent wedi'u tynnu o dablau cyflenwi a defnyddio a thablau mewnbwn-allbwn Llywodraeth Cymru. Mae traweffeithiau'r gadwyn gyflenwi (traweffaith y lluosogwyr Math I) wedi eu diddymu o'r lluosogwyr Math II er mwyn ynysu effaith gwariant gweithlu.

Tabl 12: lluosogwyr Math II

	Lluosogwr Math II GVA	Lluosogwr Math II Cyflogaeth
Creadigol, celfyddydau, adloniant, llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau	1.45	1.17
Adeiladu	1.59	1.53
Addysg	1.34	1.32
Llety a gwasanaethau bwyd	1.39	1.17

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Unwaith mae'r effeithiau lluosogwr yma wedi cael eu cymhwyso i draweffeithiau gor-dwristiaeth a thraweffeithiau uniongyrchol, amcangyfrifir bod yr amgylchedd hanesyddol yn cefnogi 1,234 o swyddi pellach drwy wariant gan y gweithlu, gan gynhyrchu £103.2 miliwn y flwyddyn.

Tabl 13: traweffeithiau gwario'r gweithlu

	Amgylchedd hanesyddol	Amgueddfeydd	Cyfanswm sector amgylchedd hanesyddol
Cyflogaeth (FTE)	824	410	1,234
GVA (£m) (prisiau 2026/27)	£70.1	£33.1	£103.2

Ffynhonnell: AMION Consulting

3.6 Cyfanswm gwerth economaidd amgylchedd hanesyddol Cymru

Gan gymryd yr holl gydrannau gyda'i gilydd, mae'r tabl isod yn cyflwyno cyfanswm amcangyfrifedig o werth economaidd cyfunol y sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Wrth ddefnyddio'r prif ffigyrau yma, cofiwch ddefnyddio'r paragraff isod sy'n darparu crynodeb o werth economaidd cyffredinol amgylchedd hanesyddol Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru'n cefnogi ôl-troed economaidd amcangyfrifedig dros 17,700 net o swyddi ychwanegol a £738 miliwn GVA i economi Cymru

bob blwyddyn. Gyda chyflogaeth a gweithgarwch yn cael eu harwain gan sefydliadau allweddol megis Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, mae'r amgylchedd hanesyddol craidd yn cefnogi bron i 12,000 o swyddi a thros £500 miliwn o GVA. Mae amgueddfeydd yn cyfrannu dros £236 miliwn o GVA i economi Cymru bob blwyddyn, ac yn cefnogi dros 6,000 o swyddi. Mae'r ffigyrau hyn wedi cael eu haddasu ar gyfer ychwanegedd gan gynnwys y gyfran o'r gweithlu sydd heb fod yn byw yng Nghymru.

Cydnabyddir bod y ffigwr cyfanswm gwerth economaidd yma yn is na'r ffigwr yn adroddiad 2010 ECOTEC. Fodd bynnag, ni ddylid dehongli hyn fel tystiolaeth bod y sector wedi cywasgu neu leihau dros amser. Yn hytrach, cyfrifir am y gwahaniaethau hyn yn bennaf gyda chyfres o wahaniaethau methodolegol sydd wedi eu rhoi ar waith o fewn yr astudiaeth hon.

Tabl 14: cyfanswm gwerth economaidd y sector

	Amgylchedd hanesyddol	Amgueddfeydd	Cyfanswm sector amgylchedd hanesyddol
Gwerth economaidd uniongyrchol			
Cyflogaeth (FTE)	2,553	1,923	4,476
GVA (£m)	£106.4	£60.6	£167.0
Traweffeithiau twristiaeth			
Cyflogaeth (FTE)	7,229	3,088	10,317
GVA (£m)	£249.2	£106.5	£355.7
Traweffeithiau (anuniongyrchol) y gadwyn gyflenwi			
Cyflogaeth (FTE)	1,156	554	1,710
GVA (£m)	£76.2	£36.7	£112.8
Traweffeithiau gwariant y gweithlu (a achoswyd)			
Cyflogaeth (FTE)	824	410	1,234
GVA (£m)	£70.1	£33.1	£103.2
Cyfanswm gwerth economaidd amgylchedd hanesyddol Cymru			
Cyflogaeth (FTE)	11,763	5,975	17,738
GVA (£m)	£501.9	£236.8	£738.7

Ffynhonnell: AMION Consulting

4. Gwerth cymdeithasol amgylchedd hanesyddol Cymru

4.1 Cyflwyniad

Mae gwerth cymdeithasol amgylchedd hanesyddol Cymru wedi cael ei asesu gan ddefnyddio Llyfr Gwyrdd Trysorlys Ei Fawrhydi a chanllawiau adrannol arall megis yr hyn a gyhoeddir gan yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Gellir canfod asesiad ansoddol ehangach o rai o'r sianeli hyn o werth cymdeithasol o fewn Adran 5, gan gynnwys nifer o enghreifftiau penodol ac astudiaethau achos. Dylai'r amcangyfrifon gwerth cymdeithasol a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn gael eu dehongli fel mesurau dangosol o'r gwerth mae pobl yn ei roi ar yr amgylchedd hanesyddol, ac fe'u bwriedir i helpu adnabod buddion sy'n aml yn cael eu tangynrychioli mewn dadansoddiadau economaidd. Fel gyda phob gwaith gwerthuso o'r math yma, mae'r canlyniadau'n sensitif i'r dull, rhagdybiaethau a grwpiau poblogaeth a gynhwysir. Dylent felly gael eu darllen ochr yn ochr â'r dystiolaeth ansoddol ac astudiaethau achos, yn hytrach na fel mesurau sy'n sefyll ar eu pen eu hunain o gyfanswm gwerth.

Mae'r asesiad hwn wedi canolbwyntio ar y gwerth cymdeithasol a gynhyrchwyd drwy ymgysylltiad uniongyrchol gyda'r amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd, yn ogystal â thraweffeithiau lles gan rai sydd heb fod yn ddefnyddwyr sy'n gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol ehangach gan ddefnyddio technegau ymchwil Gwerthuso Digwyddiadol. Mae gwerthuso digwyddiadol yn dechneg gwerthuso sydd heb fod yn dibynnu ar y farchnad er mwyn amcangyfrif y gwerth mae pobl yn ei roi ar nwyddau neu wasanaethau nad ydynt yn cael eu masnachu'n uniongyrchol mewn marchnadoedd. Mae'n gwneud hyn drwy ofyn i ymatebwyr faint fyddent yn fodlon ei dalu (WTP) ar gyfer deilliant diffiniedig, gwasanaeth neu nwydd cyhoeddus mewn senario ddychmygol sydd wedi'i diffinio'n ofalus. Pwrpas yr ymchwil yma oedd dal gwerthoedd lles sy'n gysylltiedig gyda gwarchod, rheoli a defnyddio treftadaeth yng Nghymru. Mae'r dull methodolegol hwn wedi'i gytuno arno gyda Cadw a Llywodraeth Cymru fel y ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r amcanion ymchwil craidd, er bod AMION yn cydnabod bod detholiad ehangach o dechnegau amgen y gellid bod wedi eu defnyddio. Disgwylir y byddai technegau amgen, megis y dull WELLBY sy'n gynyddol boblogaidd, o roi gwerth ariannol i les, yn debygol o gynhyrchu lefelau gwahanol o werth cymdeithasol yn gysylltiedig gydag amgylchedd hanesyddol Cymru. Dylai'r gwahaniaethau methodolegol sylfaenol yma gael eu cydnabod wrth ddarllen yr adroddiad hwn ac wrth ddehongli'r canfyddiadau.

Yn ehangach, dylai'r canfyddiadau gael eu deall yng nghyd-destun amgylchedd hanesyddol nodedig Cymru. Mae llefydd hanesyddol yn cyfrannu at ymdeimlad pobl o berthyn, hunaniaeth a chysylltiad emosiynol gyda lle maent yn byw a gweithio ynddynt ac yn ymweld ag ef. Mae'r cysylltiadau yma'n bwysig ynddynt eu hunain, ond maent hefyd yn ffurfio rhan o'r ffordd y mae'r amgylchedd hanesyddol yn cefnogi hapusrwydd, lles ac ansawdd bywyd ar draws Cymru.

4.2 Gwerthoedd defnyddio a dim defnyddio'r amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd

4.2.1 Gwerth defnyddio yr amgylchedd hanesyddol

Mae ymweld ag adeiladau treftadaeth yn cyfrannu at lesiant gwell drwy feithrin ymdeimlad o gysylltiad gyda hanes, hunaniaeth ddiwylliannol a lle. Mae'r buddion llesiant sy'n deillio o ymwelwyr yn cael mynediad at amgylchedd hanesyddol Cymru wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio astudiaeth Gwerthuso Ddigwyddiadol yn seiliedig ar bedwar o asedau Cadw.

Bu i'n hadolygiad adnabod bwlch yn y pwll tystiolaeth yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon lle nad oedd astudiaeth y gellid ei chymharu oedd yn asesu cestyll ac asedau hanesyddol yn y DU. Gan hynny, fe wnaeth arolwg gwerthfawrogi digwyddiadol AMION, a rannwyd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Cadw, asesu parodrwydd ymwelwyr i dalu er mwyn cynnal safleoedd hanesyddol - gan roi ystyriaeth i'w tâl mynediad gwreiddiol.

Roedd defnyddio arolwg ar-lein yn galluogi i ddata gael ei gasglu'n effeithlon o sampl oedd yn wasgaredig yn ddaearyddol led-led Cymru. Fodd bynnag, gan fod yr arolwg wedi'i hyrwyddo drwy sianel cyfryngau cymdeithasol Cadw ei hun, mae'r sampl yn debygol o gynnwys cyfran uwch o ymatebwyr sydd eisoes ag ymwybyddiaeth o dreftadaeth a diddordeb ynddi na'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli'r canlyniadau. Casglodd yr arolwg dros 250 o ymatebion ar draws pedwar castell, sef:

- Conwy
- Caerffili
- Rhaglan
- Chaernarfon

Cafodd yr arolwg ei gynnal yn unol ag arfer gorau o ganllawiau'r Adran Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r gwerthoedd WTP wedi bod yn ddarostyngedig i fesurau cynrychiolaeth samplu unioni ar gyfer rhychwantau oedrannau a rhywedd. Maent hefyd yn seiliedig ar sicrwydd canran ar gyfer WTP fel rhan o ddyluniad yr arolwg. Er enghraifft, gwerth WTP o £10 gyda 50% o ganlyniadau sicrwydd mewn WTP o £5.

Wedi'i dynodi gan UNESCO yn 2021 er mwyn cydnabod pwysigrwydd byd-eang diwydiant llechi Cymru, mae'r safle wedi gweithredu fel prif gatalydd ar gyfer buddsoddiad dilynol, adfywiad sy'n cael ei arwain gan dreftadaeth a gweithio mewn partneriaeth. Ers derbyn y dynodiad, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid wedi denu dros £38 miliwn o fuddsoddiad i mewn i'r ardal ochr yn ochr â grantiau partner a buddsoddiad gan y sector preifat. Ochr yn ochr â buddsoddiad cyfalaf mawr i ail-ddatblygu'r Amgueddfa Lechi yng ngogledd-orllewin Cymru yn Llanberis, mae'r bartneriaeth strategol sy'n gyfrifol am y safle yn parhau i weithio gyda Gwasanaeth Archifau Ysgolion a nifer o ysgolion cynradd ar draws y sir er mwyn

cefnogi pobl ifanc i gymryd diddordeb yn eu hanes lleol. Yn yr un modd mae'r prosiect Llysgenhadon Ifanc LleCHI wedi darparu gweithdai, ymweliadau a digwyddiadau ar gyfer pobl ifanc o ysgolion uwchradd lleol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a'u diwylliant.

Cestyll a Muriau Trefi Brenin Edward I yng Ngwynedd

A hwythau wedi'u dynodi'n Safle Treftadaeth y Byd UNESCO yn 1986, mae'r safle'n cynnwys cestyll Conwy, Harlech, Caernarfon a Biwmares, ochr yn ochr â threfi caerog Conwy a Chaernarfon. Mae'r asedau treftadaeth rhyngwladol yma'n chwarae rhan fawr yn hunaniaeth ddiwylliannol Cymru, gan ddenu ymwelwyr ar draws y byd ac ar yr un pryd helpu i ddiogelu a dehongli cyfnod cymhleth yn hanes Cymru. Mae'r dynodiad hefyd yn atgyfnerthu proffil rhyngwladol amgylchedd hanesyddol Cymru, gan ddangos sut y gall safleoedd treftadaeth sydd o arwyddocâd rhyngwladol gyfrannu at dwristiaeth, addysg ac ymwybyddiaeth ehangach o hanes a diwylliant Cymru. Mae'r enghreifftiau o weithgareddau a ddarparwyd ar draws y Safle Treftadaeth y Byd wedi cynnwys dangosiad cyntaf yr artist goleuo byd-enwog Chris Levine, o 'Annwn', perfformiad trochol o dafluniad laser a sain o fewn waliau Castell Caernarfon.

Dyfrffordd a Chamlas Pontcysyllte

Mae'r safle yn dirwedd sy'n cael ei rheoli gan bartneriaid, ac sy'n ymestyn ar draws Wrecsam a gogledd-ddwyrain Cymru. Rheolir Dyfrffordd Pontcysyllte a'r Gamlas drwy strwythur llywodraethu cydweithredol sy'n canolbwyntio ar amddiffyn ei werth Byd-eang Eithriadol ac ar yr un pryd yn cefnogi deilliannau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach. Ochr yn ochr â chyfrifoldebau cadwraeth a stiwardiaeth, mae'r Cynllun Rheoli Safle Treftadaeth y Byd yn cynnwys amcanion sy'n gysylltiedig ag ymdeimlad o le, llesiant, twristiaeth, a gweithgarwch economaidd a chyfrifoldeb ar y cyd ar gyfer treftadaeth. Mae'r dynodiad wedi helpu i atgyfnerthu cydnabyddiaeth o dreftadaeth ddiwydiannol a chymunedol ardal y gamlas, gan gefnogi mentrau megis prosiectau adrodd straeon lleol, celf gyhoeddus a gweithgareddau ymgysylltu cymunedol wedi'u darparu gyda Glandŵr Cymru a phartneriaid lleol. Mae'r safle hefyd yn denu gweithgarwch ymwelwyr sylweddol gan gynnwys twristiaeth a chwaraeon dŵr, tra bu i raglenni addysgiadol a ddarparwyd ym Masn Trefor helpu disgyblion ysgol lleol i ddysgu am hanes ac arwyddocâd y gamlas a'r ddyfrffordd.

Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon

Wedi'i chefnogi gan ddynodiad Safle Treftadaeth y Byd, mae treftadaeth ddiwydiannol wedi dod yn rhan ganolog o hunaniaeth leol. Mae'r safle'n cyfuno nodweddion diwydiannol sy'n arwyddocaol yn rhyngwladol gyda hanes cymdeithasol Cymoedd De Cymru, gan gynnwys cysylltiadau gyda ffigyrau megis Aneurin Bevan, sylfaenydd y GIG, oedd yn byw'n lleol. Mae gweithgarwch adfywio sy'n cael ei arwain gan Dreftadaeth o fewn Blaenafon wedi ceisio gosod treftadaeth ddiwydiannol fel rhan nodedig o hunaniaeth y dref a'i datblygiad yn y dyfodol. Bu i raglenni cymunedol helpu pobl leol i ymgysylltu'n ddyfnach gyda hanes yr ardal, tra mae dynodiad UNESCO wedi atgyfnerthu pwysigrwydd ymwneud cymunedau lleol yn stiwardiaeth y safle. Mae cyfleoedd yn parhau i hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol a thirwedd Cymru'n rhyngwladol, yn arbennig felly o gofio safle unigryw'r safle gerllaw Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

- budd mawr - mae gwerth ehangach y dynodiad Safle Treftadaeth y Byd yn debygol o gynyddu gwerth ehangach yn sylweddol

5.2.5 Cadwraeth a stiwardiaeth treftadaeth

Yn gynyddol, mae stiwardiaeth treftadaeth yng Nghymru yn ymestyn y tu hwnt i gadwraeth a diogelu yn unig, gyda phwyslais cynyddol ar sicrhau bod safleoedd treftadaeth yn parhau i fod yn berthnasol, yn hygyrch ac yn gynaliadwy. Mae yna gydnabyddiaeth gynyddol bod adeiladau hanesyddol a llefydd yn aml angen defnydd hyblyg ac addasol er mwyn sicrhau eu diogelwch yn yr hirdymor, gan gydbwysu cadwraeth cymeriad gydag anghenion a disgwyliadau sy'n newid o fewn y gymuned. Mae sefydliadau megis y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol yn chwarae rhan bwysig yn cefnogi'r gwaith hwn, drwy ariannu camau cynnar, cefnogaeth i ddatblygu prosiect ac adeiladau capasiti. Mae yna hefyd ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen am i safleoedd treftadaeth adrodd nifer o straeon, ehangu cyfranogiad a chreu cyfleoedd ar gyfer defnydd cymdeithasol a chymunedol ehangach. Mae'n bwysig nodi bod cadwraeth a stiwardiaeth treftadaeth nid yn unig yn canolbwyntio ar adeiladau hanesyddol, ond ei fod hefyd yn berthnasol i ystod lawn o fathau o asedau. Gellir canfod rhai enghreifftiau o sut mae gwahanol elfennau o'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn cael eu diogelu isod.

Rheilffyrdd Treftadaeth

Mae'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru'n cynnwys rhai o'r rheilffyrdd treftadaeth hynaf a mwyaf hardd yn y byd. Mae gan bob un ei hanes unigryw ei hun, ac mae'r rheilffyrdd treftadaeth yn enghreifftiau allweddol o sut y gall cadwraeth gwahanol fathau o asedau hanesyddol gynhyrchu gwerth sylweddol ar draws Cymru.

Rheilffyrdd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru yw un o'r cwmnïau rheilffordd hynaf yn y byd, a hithau wedi'i hawdurdodi gan Ddeddf Seneddol yn 1832. Gan redeg drwy Barc Cenedlaethol Eryri, prif flaenoriaeth y rheilffordd yw diogelu a chadw'r rheilffordd. Fodd bynnag, mae gwerth ehangach sy'n gysylltiedig gyda datblygu sgiliau, gwirfoddoli ac ymgysylltiad cyhoeddus hefyd wedi'i wireddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft mae buddsoddiad gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cefnogi gwaith cadwraeth a dehongli yng Ngwaith Boston Lodge. Bu i'r gwaith helpu i ddiogelu ac adnewyddu treftadaeth sylweddol y safle, a hefyd ddarparu lleoliadau gwaith wnaeth gyrraedd 230 o bobl. Mae'r rheilffordd yn cefnogi oddeutu 100 o staff parhaol, hyd at 160 o staff tymhorol ac oddeutu 1,000 o wirfoddolwyr.

Mae Rheilffordd Tal-y-llyn yn rheilffordd saith milltir o hyd sy'n rhedeg wrth droed Chwarel Bryn Eglwys sy'n cael ei chydabod yn rhan o Dirwedd Llechi Safle Treftadaeth y Byd Gogledd-orllewin Cymru. Fe'i hgorwyd yn wreiddiol yn 1865 er mwyn cludo llechi, a daeth y rheilffordd i fod y rheilffordd dreftadaeth gyntaf i gael ei gwarchod yn 1950 ac mae'n parhau i flaenoriaethu cadwraeth ei seilwaith rheilffordd hanesyddol a cherbydau. Mae'r sefydliad yn gweithredu drwy gyfuniad o gymdeithas gadwraeth a chwmni masnachu, wedi'i gefnogi gan oddeutu 4,000 o aelodau, 450 o wirfoddolwyr gweithredol a 26 o staff. Ochr yn ochr â gweithgarwch cadwraeth, mae'r rheilffordd yn darparu ymweliadau addysgol sy'n gysylltiedig gyda'r cwricwlwm ysgol, yn cefnogi prentisiaethau peirianeg ac sy'n cynnal gweithgareddau llesiant gyda grwpiau cymunedol. Mae cyrhaeddiad y safle'n ymestyn mor

bell â Siapan ac Unol Daleithiau America, gan fod y rheilffordd yn darparu llety wedi'i sybsideiddio ar gyfer gwirfoddolwyr er mwyn helpu i leihau rhwystr allweddol at gyfranogi.

Haverhub, Hwlfordd

Yn Hwlfordd, mae'r adeilad cyn- swyddfa bost rhestredig Gradd II wedi cael ei drawsnewid yn hwb cymunedol a chreadigol ffyniannus drwy ddull adfywio sy'n cael ei arwain gan y gymuned. Wedi i'r swyddfa bost gau yn 2014, cafodd yr adeilad ei ailwrpasu'n ofalus gan gwmni Haverhub Community Interest er mwyn darparu caffi, gofod digwyddiadau, cyfleusterau swyddfa, llefydd gweithio creadigol, marchnadoedd dan do ac ardaloedd perfformio cymunedol. Bu i ymgysylltiad cymunedol helpu i lunio'r ailddatblygiad er mwyn sicrhau bod yr adeilad yn ymateb i anghenion lleol a'i fod yn cefnogi ystod eang o weithgareddau a defnyddwyr. Bu i gefnogaeth gan y Gronfa Dreftadaeth Bensaernïol a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol alluogi atgyweiriad fesul cam o'r adeilad, gan helpu i greu ased treftadaeth oedd yn gallu cefnogi gweithgarwch cymunedol, diwylliannol ac economaidd ehangach.

Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru

Mae Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru'n cefnogi gwarchod a hyrwyddo parciau hanesyddol Cymru a'i gerddi drwy waith ymchwil, eiriolaeth ac ymgysylltiad cyhoeddus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynrychioli dros 830 o aelodau ac ar hyn o bryd mae wrthi'n datblygu cofrestr 'gerddi mewn peryg' er mwyn helpu i adnabod a diogelu tirweddau hanesyddol sy'n agored i niwed. Mae ei gwaith yn tynnu sylw at y gydnabyddiaeth gynyddol sydd i erddi hanesyddol fel asedau diwylliannol, amgylcheddol a thwristiaeth pwysig, yn arbennig felly gan fod gerddi yn aml yn denu ymwelwyr sy'n ailymweld a'u bod yn apelio'n gryf at deuluoedd. Mae cydweithrediad gyda sefydliadau megis Heneb hefyd wedi helpu i atgyfnerthu treftadaeth, bioamrywiaeth a gwerth cymdeithasol ehangach tirweddau hanesyddol, wrth godi ymwybyddiaeth o'r peryglon sy'n deillio o esgeulustod, aildatblygu a diffyg cydnabyddiaeth.

- ychydig o fudd - mae enghreifftiau amrywiol o stiwardiaeth a pherchnogaeth yn cynhyrchu cyfraniad sydd o werth ehangach

5.3 Gwerth ehangach i bobl, llefydd a chymunedau

5.3.1 Hunaniaeth ddiwylliannol

Ffynhonnell allweddol o werth ehangach yw drwy rôl y sector yn llunio ac yn mynegi hunaniaeth Gymreig drwy iaith, tirwedd, hanes a chymuned. Gan alinio gyda datganoli cynyddol a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar le, mae pwyslais cynyddol wedi bod ar hynodrwydd treftadaeth Cymru a'r rôl y gall llefydd hanesyddol ei chwarae yn atgyfnerthu dealltwriaeth pobl o le, perthyn a hunaniaeth genedlaethol. Mae iaith a diwylliant Cymru wedi'u mewnosod o fewn dehongli treftadaeth, digwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu, gan adlewyrchu'r berthynas agos rhwng pobl, tir a threftadaeth yng Nghymru. Er enghraifft, mae gan 10% o'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio o fewn amgueddfeydd y gallu i siarad Cymraeg, fel y mae 28% o staff. Ar draws yr amgylchedd hanesyddol mae yna awydd cryf i fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n cael ei arwain gan hunaniaeth Gymreig ac yn cefnogi cyfranogiad lleol. Mae'r gweithgareddau diwylliannol yn chwarae rhan allweddol yn gwneud

treftadaeth yn fwy perthnasol, hygrych ac wedi'i wreiddio mewn bywyd diwylliannol bob dydd. Cafodd rhai enghreifftiau allweddol eu hadnabod isod:

Y Cymoedd a Newidiodd y Byd

Fel rhwydwaith allweddol o oddeutu 200 o sefydliadau, safleoedd a grwpiau, mae'r Cymoedd a Newidiodd y Byd yn gweithio i ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol Cymru. Mae'r rhwydwaith nid yn unig yn canolbwyntio ar gadw safleoedd diwydiannol hanesyddol ond hefyd ar atgyfnerthu ymgysylltiad cyhoeddus, addysg ac ymwybyddiaeth o hanesion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â gorffennol diwydiannol Cymru. Drwy gydweithrediad, digwyddiadau ac eiriol dros y sector, mae'r rhwydwaith yn helpu i sicrhau bod treftadaeth ddiwylliannol yn parhau i fod yn hygrych ac yn berthnasol i gymunedau lleol ac ymwelwyr. Mae'r rhwydwaith hefyd yn cefnogi llais cryfach ar gyfer y sector ac yn hyrwyddo treftadaeth ddiwydiannol o Gymru yn genedlaethol drwy gysylltiadau gyda Llwybr Ewrop o Dreftadaeth Ddiwylliannol, gan atgyfnerthu pwysigrwydd hanes diwydiannol o fewn hunaniaeth ddiwylliannol Cymru ac ymdeimlad o le.

Pentref Oes yr Haearn Castell Henllys Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mae hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru wedi'i fewnosod drwy gydol profiad ymwelydd, rhaglen addysg a gweithgarwch cymunedol Castell Henllys. Drwy adrodd straeon dwyieithog, cerddoriaeth, dehongli a digwyddiadau diwylliannol, mae'r safle'n creu cyfleoedd i bobl leol ac ymwelwyr ymgysylltu gyda threftadaeth Cymru mewn ffordd hygrych ac sy'n creu traweffaith. Mae'r digwyddiad byrddydd y gaeaf yn parhau i fod yn un o ddigwyddiadau mwyaf poblogaidd yr awdurdod gan gyfuno traddodiadau Cymru megis y Fari Lwyd gydag adrodd straeon a pherfformiad. Mae Castell Henllys hefyd yn cael ei ystyried yn lleol fel hwb iaith Gymraeg ac mae'n denu grwpiau dysgwyr Cymraeg, teithiau tywys, grwpiau canu a gweithgareddau cymunedol er mwyn helpu unigolion i ymarfer eu sgiliau Cymraeg. Un o'r nifer o gryfderau sydd gan Gastell Henllys yw'r gyfran uchel o siaradwyr Cymraeg rhugl o fewn y tîm sy'n cyfrannu at lwyddiant y safle fel cyrchfan iaith Gymraeg.

- budd mawr - mae traweffaith diwylliannol ehangach a balchder mewn lle yn cael ei ddal yn rhannol o fewn y dadansoddiad gwerth ariannol, er ei fod yn parhau i fod yn hynod o arwyddocaol

5.3.2 Lles, cyfranogiad a chynhwysiant cymunedol

Mae gwirfoddoli a chyfranogiad cymunedol yn hanfodol i gynaliadwyedd a gwerth ehangach amgylchedd hanesyddol Cymru. Er bod amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a thirweddau hanesyddol yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi ymwelwyr, maent hefyd yn darparu cyfleoedd pwysig i bobl gyfranogi mewn bywyd cymunedol, datblygu sgiliau, meithrin cysylltiadau cymdeithasol a chyfrannu at stiwardiaeth llefydd sy'n cyfrif iddynt hwy. O safbwynt hyn, dylid ystyried yr amgylchedd hanesyddol yn rhan o seilwaith cymdeithasol ehangach Cymru, gan greu platfformau y gall unigolion a chymunedau ymgysylltu gyda'u hardal leol a chyda'i gilydd drwyddynt. Mae'r pwyslais hwn ar ymgysylltu wedi dod yn gynyddol amlwg yn y blynyddoedd diwethaf, gan fod nifer o sefydliadau wedi mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio fwy ar bobl sy'n gosod ymgysylltiad cymunedol, cynhwysiant a lles wrth galon eu gweithgareddau. Mae gwirfoddolwyr yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn

cefnogi gweithrediad, cynnal a chadw a dehongli asedau treftadaeth, ond mae cyfranogiad yn cael ei adnabod yn gynyddol fel deiliant gwerthfawr ynddo'i hun. O ganlyniad, mae'r amgylchedd hanesyddol ehangach yng Nghymru yn parhau i geisio ehangu a chael amrywiaeth o fewn eu gwirfoddolwyr a'u cyfranogwyr. Mae hyn wedi arwain at doreth o sefydliadau sy'n datblygu agweddau newydd at wirfoddoli, ymgysylltu gyda phobl ifanc a chyfranogiad cymunedol sy'n canolbwyntio ar hygyrchedd, lles, sgiliau datblygu a pherthnasedd lleol. Yn ogystal, mae yna gydnabyddiaeth gynyddol y byddai sawl rhan o'r sector yn cael trafferth gweithredu heb wirfoddolwyr, gan atgyfnerthu'r rôl sylweddol, ond sy'n aml yn cael ei thanbrisio, sydd gan gyfranogiad cymunedol gwirfoddol a chynhwysol. Mae rhai dulliau arloesol o gefnogi cyfranogiad wedi'u nodi isod.

Prosiect Llwybrau i'r Gorffennol Tempo Time Credits

Mae Tempo Time Credits yn cynnig cyfle i wirfoddolwyr ennill Credydau Amser am eu hamser, a gallant eu cyfnewid am brofiadau a gweithgareddau ar draws Cymru. Mae'r sefydliad wedi cymhwyso'r model cymunedol gwobr a chydabyddiaeth er mwyn cefnogi gwirfoddoli o fewn y sector treftadaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot. Wedi'i arwain gan yr uchelgais o ddarparu pobl o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli gyda chyfle i wirfoddoli a chael mynediad at fuddion llesiant cysylltiedig, mae'r fenter wedi canolbwyntio'n benodol ar greu cyfleoedd mwy hyblyg, hygyrch ac sy'n gyfeillgar i'r teulu ar gyfer cyfranogi. Mae'r prosiect sydd wedi'i gefnogi gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi arddangos grym dull sy'n seiliedig ar le, ac sy'n cael ei arwain gan y gymuned at ymgysylltiad gyda threftadaeth, ac mae hyn yn ei dro wedi atgyfnerthu cynaliadwyedd sefydliadau treftadaeth ar draws y fwrdeistref. Ers iddo ddechrau yng nghanol 2024, mae'r prosiect wedi cefnogi dros 450 o wirfoddolwyr a 80 o grwpiau cymunedol. Adroddodd oddeutu 75% o gyfranogwyr bod eu hiechyd meddwl wedi gwella, bod ganddynt fwy o hyder, a sgiliau newydd a mwy o allu i gyfrannu at eu gymuned leol.

Tocyn £1 Cadw

Nod menter tocyn £1 Cadw yw ehangu cyfranogiad a lleihau rhwystrau ariannol at ymgysylltu gyda'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r tocyn £1 ar gael i'w archebu o atyniadau ymwelwyr Cadw sydd wedi'u staffio ac mae ar gael i bawb sy'n derbyn budd-daliadau Credyd Cyffredinol cymwys. Mae tystiolaeth gynnar o'r cynllun tocyn £1 wedi bod yn arbennig o bositif, gyda data monitro yn dangos bod dros 80% o ddefnyddwyr heb ymweld â'r safleoedd sy'n cyfranogi. Y tu hwnt i'w draweffaith ar niferoedd ymwelwyr, mae'r cynllun yn dangos sut y gall yr amgylchedd hanesyddol weithredu fel rhan o seilwaith mynediad cyhoeddus a chymdeithasol Cymru. Drwy leihau rhwystrau ariannol a chreu cyfleoedd newydd i gyfranogi, mae mentrau fel y cynllun tocyn £1 yn helpu i sicrhau bod caffaeliadau diwylliannol sylweddol yn hygyrch i ystod fwy amrywiol ac ehangach o bobl a chymunedau. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gefnogi cynhwysiant, ehangu cyfranogiad ymysg grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a sicrhau bod buddion yr amgylchedd hanesyddol yn cael eu rhannu ar draws y gymdeithas. Yn yr un modd, cynigiodd Cadw 10,000 o docynnau am ddim i 17 o safleoedd ar Ddydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth 2026. Bu i Gronfa Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth Cymru hefyd gefnogi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i ddarparu rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol oedd am ddim ar draws 15 o safleoedd.

Rhaglen Wirfoddoli Amgueddfa Cymru

Mae rhaglen wirfoddoli Amgueddfa Cymru'n blaenoriaethu cyfranogiad treftadaeth er mwyn cefnogi datblygu sgiliau, cynhwysiant a lles cymunedol. Mae'r rhaglen yn cynnwys ystod o gyfleoedd wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol gymunedau gan gynnwys lleoliadau i bobl sy'n profi rhwystrau at gyflogaeth, partneriaethau gyda sefydliadau megis Ymddiriedolaeth Innovate a chyfleoedd profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc 15-17 oed. Gyda'i gilydd, mae gan y sefydliad dros 800 o wirfoddolwyr sy'n rhoi 34,000 awr o amser bob blwyddyn. O safbwynt cynhwysiant, mae 27% o wirfoddolwyr Amgueddfa Cymru dan 25 oed, mae 10% yn hunan-uniaethu fel y mwyafrif cyffredinol, 14% yn hunanuniaethu fel bod naill ai'n ddeurywiol, yn ddi-ryw, yn hoyw, lesbiaidd, panrywiol, cwiar neu gwestiynu, ac mae 13% o wirfoddolwyr yn ystyried eu hunain yn anabl.

Gweithgareddau Gwirfoddoli'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn darparu enghraifft gref o'r rôl hanfodol mae gwirfoddolwyr yn ei chwarae yn cynnal a chadw, gweithredu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn tynnu ar gefnogaeth dros 2,000 o wirfoddolwyr ar draws Cymru, sydd dros bedair gwaith y nifer y staff llawn amser a gyflogir gan y sefydliad. Mae'r sefydliad yn darparu cyfleoedd i wirfoddoli ar draws 17 o safleoedd, sy'n amrywio o gefnogi gwaith adnewyddu llwybrau troed ar fynyddoedd Bannau Brycheiniog i groesawu ymwelwyr i Erddig. Yn achos Erddig, mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio gyda gwirfoddolwyr o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd ac oedrannau, gyda'r gwirfoddolwr ieuengaf yn 11 oed a'r hynaf dros 100.

- budd mawr - mae gwerth ariannol yn cael ei roi arno drwy ddadansoddi niferoedd ymwelwyr a thraweffeithiau llesiant gwirfoddoli, er ei fod yn parhau yn brif flaenoriaeth ac yn ffynhonnell gwerth

5.3.3 Dysgu, addysg a datblygu sgiliau

Mae datblygu sgiliau'n parhau i fod yn brif her strategol ar draws yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, gan fod prinder penodol yn parhau o fewn sgiliau adeiladu a chadwraeth traddodiadol. Ar yr un pryd, mae yna bwysau cynyddol i addasu set sgiliau sy'n bodoli eisoes er mwyn cefnogi atgyweirio, cynnal a chadw ac ôl-osod adeiladau traddodiadol. Mae heriau capasiti hefyd wedi ymestyn y tu hwnt i sgiliau cadwraeth technegol i mewn i feysydd megis llywodraethiant, rheoli prosiect a datblygu grant, yn arbennig felly o fewn sefydliadau treftadaeth llai. Er bod y cyflenwad cyffredinol o gyfleoedd hyfforddi'n parhau i fod yn gyfyngedig, mae yna nifer o sefydliadau a rhaglenni sy'n chwarae, neu sydd wedi chwarae rôl allweddol wrth ddarparu cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae hyn yn cynnwys cymysgedd o hyfforddiant wedi'i achredu, gwirfoddoli a chyfranogiad cymunedol, gyda pheth tystiolaeth o wirfoddolwyr yn symud ymlaen i gyflogaeth a datblygu sgiliau trosglwyddadwy i mewn i waith adeiladu, cadwraeth a rheoli treftadaeth.

Canolfan Tywi

Mae Canolfan Tywi yn ganolfan sgiliau adeiladu traddodiadol arbenigol sydd wedi'i lleoli yn sir Gâr ac sydd wedi dod yn arweinydd cenedlaethol mewn hyfforddiant sgiliau adeiladu treftadaeth yng Nghymru. Wedi'i sefydlu yn 2009, mae'r Ganolfan yn darparu hyfforddiant wedi'i achredu a heb ei achredu ac yn helpu i fynd i'r afael â'r prinder sylweddol mewn

sgiliau adeiladu a chadwraeth traddodiadol ar draws y sector. Mae gwaith y Ganolfan yn adlewyrchu cydnabyddiaeth gynyddol bod arbenigedd arbenigol yn hanfodol i waith cynnal a chadw, atgyweirio ac addasu cynaliadwy gydag adeiladau hanesyddol. Ers 2018, mae dros 600 o ddysgwyr wedi cwblhau cymwysterau sydd wedi'u hachredu drwy'r Ganolfan, gyda thros 550 o berchnogion tai a cheidwaid wedi derbyn hyfforddiant ymarferol mewn gofalu am adeiladau traddodiadol. Mae'r Ganolfan hefyd yn darparu datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer dros 200 o weithwyr proffesiynol ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau gan gynnwys Cadw, Bwrdd Hyfforddiant y Diwydiant Adeiladu, colegau, awdurdodau lleol ac elusennau treftadaeth ar draws y DU. Mae Canolfan Tywi'n arddangos sut mae darpariaeth sgiliau treftadaeth yn gallu cefnogi datblygu gweithlu, gwytnwch yn y sector a chynaliadwyedd hirdymor yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Ymgysylltiad Cadw gyda Phobl Ifanc

Wedi'i ddarparu'n wreiddiol yn Abaty Nedd, mae'r rhaglen Ceidwaid Ifanc yn parhau i weithio gydag ysgolion lleol i annog pobl ifanc ddod yn geidwaid a llysgenhadon gweithredol ar gyfer safleoedd hanesyddol o fewn eu cymunedau. Mae'r rhaglen yn cyfuno dysgu ar y safle ac yn yr ystafell ddosbarth er mwyn cefnogi dysgu am dreftadaeth leol, perchnogaeth gymunedol ac ymgysylltiad teuluol gyda llefydd hanesyddol. Hyd yma, mae'r rhaglen wedi ymgysylltu gyda 1,810 o Geidwaid Ifanc ar draws 10 o ysgolion ac mae hefyd wedi helpu i gefnogi cysylltiadau lleol cryfach gyda'r safle a lleihad posib mewn ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Er mwyn cefnogi'r rhaglen wyneb yn wyneb yma, mae Cadw hefyd wedi lansio prosiect addysgol unigryw sy'n defnyddio gêm boblogaidd pwll tywod Minecraft er mwyn dod â hanes Cymru'n fyw. Mae'r cynnyrch addysg arloesol sy'n cyfuno elfennau rhithiol Minecraft gyda hanes cyfoethog safleoedd treftadaeth Cymru wedi cael ei lawrlwytho dros 10,000 o weithiau.

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Mae Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru sy'n 568 acer ac yn rhestredig Gradd II* yn darparu gweithgareddau gwyddoniaeth dinasyddyddiaeth sy'n galluogi i aelodau o'r cyhoedd weithio'n uniongyrchol gyda gwyddonwyr o fewn y dirwedd hanesyddol a helpu i wneud bioamrywiaeth ac ymchwil amgylcheddol yn fwy hygyrch a pherthnasol. Wedi'i alinio gydag ymgyrch 'Pob Plentyn yng Nghymru' lechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r Ardd hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig er mwyn sbarduno chwilfrydedd, tanio'r dychymyg ac ysbrydoli cariad gydol oes tuag at y byd naturiol. Drwy weithdai STEM ymarferol a dysgu trochol sy'n seiliedig ar fyd natur, mae pobl ifanc yn cael cyfle i archwilio byd planhigion, bioamrywiaeth a gwyddor amgylcheddol.

Prosiect Bryngaer Pendinas, Ceredigion

Roedd y prosiect hwn yn cynnwys menter archaeoleg gymunedol wedi'i llunio a'i harwain gan bobl leol oedd eisiau deall hanes y safle'n well. Gan gael ei ddarparu dros ddwy flynedd a hanner gyda chefnogaeth gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, nod y prosiect oedd atgyfnerthu perchnogaeth gymunedol o'r fryngaer gyn-hanesyddol cofrestredig wrth wella dealltwriaeth a mynediad i'r safle. Cymerodd cannoedd o breswylwyr lleol ran mewn cyfarfodydd a gweithgareddau, gan gynnwys gwaith gydag Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos, er mwyn helpu i ymgysylltu gyda phobl nad oedd fel arfer yn cyfranogi mewn gweithgaredd treftadaeth. Dangosodd canfyddiadau arolygon bod ymwneud gyda'r prosiect wedi cynyddu

cyswllt pobl â threftadaeth leol ac i Gymru'n ehangach, tra bod hanner yr ymatebwyr yn adrodd eu bod wedi gallu datblygu sgiliau newydd.

- budd cymedrol - tra eu bod yn cael eu dal gan mwyaf o fewn gwerth ariannol traweffeithiau addysg, mae ystod ehangach o weithgaredd dysgu yn brif gyfrannwr at werth ehangach y sector

5.3.4 Cynaliadwyedd amgylcheddol a gwytnwch hinsawdd

Mae'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn parhau i esblygu ac addasu mewn ymateb i fygythiad cynyddol newid hinsawdd. Mae adeiladau hanesyddol, tirweddau a safleoedd archaeolegol eisoes yn profi effeithiau lefelau'r môr yn codi, patrymau glawio sy'n newid, tymereddau uwch ac achosion o dywydd eithriadol amlach. Mae adnoddau megis cyfres [Rheoli Newid](#) Cadw o ddogfennau canllawiau arfer gorau, deunyddiau hyfforddiant [Mesurau Effeithlonrwydd Ynni ac Adeiladau Traddodiadol](#) a [Chynllun Addasu'r Sector](#) yn parhau i fod yn sail i ddulliau ar gyfer addasu, cadwraeth a rheolaeth amgylcheddol. Mae yna nifer o enghreifftiau o weithgareddau sydd wedi cael eu darparu er mwyn cynnal addasiad mwy hirdymor o'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.

Prosiect 'Penderfyniadau Anodd: Cyfathrebu Risg Hinsawdd a Cholli Treftadaeth: Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Wedi'i ddarparu fel partneriaeth rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Amgueddfa Archaeoleg Llundain (MOLA), roedd y prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc o rai o gymunedau mwyaf difreintiedig sir Benfro er mwyn archwilio traweffaith newid hinsawdd ar safleoedd treftadaeth arfordirol sydd wedi'u bygwth gan erydiad a lefelau'r môr yn codi. Mae gan arfordir sir Benfro amrywiaeth anhygoel o safleoedd archeolegol, gyda nifer ohonynt mewn perygl oherwydd lefelau'r môr yn codi ac erydiad. Drwy weithdai sy'n cyfuno archaeoleg, gwyddor hinsawdd a chreadigrwydd digidol, datblygodd cyfranogwyr sgiliau defnyddio drôn, modelu 3D, fideograffeg ac adrodd straeon. Nod y prosiect oedd helpu pobl ifanc i ddeall newid amgylcheddol, cyfathrebu eu safbwyntiau eu hunain ac adeiladu cysylltiadau cryfach gyda thirweddau a threftadaeth leol.

Caerwent Meadows

Mae Caerwent Meadows yn sefydliad cymunedol sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr sy'n rheoli dros 11 acer o dir o fewn Tref Rufeinig Caer-went. Mewn ymateb i dymereddau cynhesach, tymhorau tyfu hirach a thyfiant prysgwydd cynyddol sy'n gysylltiedig gyda newid hinsawdd, mae rhaglen pum mlynedd wedi cael ei chyflwyno er mwyn creu dolydd blodau gwyllt cynaliadwy ar draws y safle. Mae'r dolydd hyn yn gyfleuster ar gyfer preswylwyr lleol ac ymwelwyr yn ogystal â bod yn amgylchedd bioamrywiol sy'n gyfoethog mewn bywyd gwyllt, yn ddengar yn weledol ac sy'n sicrhau bod archaeoleg sydd wedi'i gladdu ac sydd ar yr wyneb yn cael ei amddiffyn. Y nod cyffredinol yw gwella bioamrywiaeth, cynyddu gwytnwch i dywydd eithafol ac amddiffyn archaeoleg sydd wedi'i gladdu rhag erydiad. Mae technegau rheoli tir eraill hefyd yn cael eu profi er mwyn darparu data a thystiolaeth fanwl y gellir eu cymhwyso i gefnogi addasiad hinsawdd yn y dyfodol a rheoli dolydd mewn mannau eraill.

Gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i Fynd i'r Afael â Newidiadau Arfordirol yng Nghymru

Gan ymestyn dros 157 milltir o arfordir Cymru, mae'r Ymddiriedolaeth wedi adnabod cyfres o 'fannau penodol arfordirol' lle mae traweffeithiau hinsawdd megis lefelau'r môr yn codi ac erydiad arfordirol yn debygol iawn o ddigwydd. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi bod yn gweithio er mwyn paratoi Strategaethau Addasu Arfordirol ar gyfer y mannau penodol hyn, sy'n cynnwys caer yr Oes Haearn Castell Bach yng Nghwm Tydu. Fel enghraifft o safle sy'n raddol yn disgyn i mewn i'r môr, mae gwirfoddolwyr wedi bod yn cofnodi gweddillion gwerthfawr fel y gellir dysgu mwy am hanes y safle cyn iddo gael ei golli.

- ychydig o fudd - rhai enghreifftiau o weithgarwch a thraweffaith er bod angen rhagor o addasu

5.4 Asesiad traweffaith ehangach heb gynnwys gwerth ariannol

Mae'r adran hon wedi dangos sut mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn cynhyrchu gwerth cyhoeddus sylweddol sydd heb ei ddal yn llawn o fewn y dadansoddiad meintiol. Crynhoir canfyddiadau'r asesiad maent yn dangos yn eglur sut mae gwerth cyffredinol yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn mynd y tu hwnt i'r hyn a awgrymir gan y dadansoddiad meintiol ei hun yn sylweddol. Fel y pwysleisiwyd yn gynharach yn yr adran hon, mae rhai o'r themâu a archwilir uchod wedi cael eu dal yn rhannol mewn man arall o fewn y dadansoddiad hwn ac maent wedi eu cyflwyno isod er mwyn cefnogi ystyriaeth fwy holistig o werth y sector drwy lens amgen.

6. Casgliadau

6.1 Cyflwyniad

Mae'r astudiaeth hon yn darparu asesiad o werth economaidd, cymdeithasol a gwerth ehangach yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'n dangos bod yr amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru, cefnogi cyflogaeth sylweddol, cynhyrchu gwerth cymdeithasol mesuradwy a chwarae rhan bwysig mewn hunaniaeth ddiwylliannol, lles cymunedol, addysg, sgiliau, gwytnwch hinsawdd ac adnewyddiad yn seiliedig ar le.

Gellir dehongli'r canfyddiadau ochr yn ochr â'r cyfyngiadau a'r rhagdybiaethau a osodir allan yn Adran 2.4. Yn benodol, mae'r asesiad wedi mabwysiadu dull sy'n fwriadol ofalus o ddiffinio'r sector, priodoli traweffeithiau ac osgoi cyfrif dwbl. O ganlyniad, mae'r amcangyfrifon yn debygol o danddatgan gwerth llawn yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Yn yr un modd, mae yna nifer o wahaniaethau methodolegol y dylid eu hystyried ac sy'n cyfyngu ar y graddau y gellir cymharu'r astudiaeth hon gydag ymchwil arall ar draws y sector.

6.2 Ganfyddiadau

Mae'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn cefnogi gweithgarwch economaidd sylweddol. Gyda'i gilydd, amcangyfrifir bod y sector yn cefnogi 17,738 o swyddi FTE ac yn cynhyrchu £738.7 miliwn o GVA ar gyfer economi Cymru bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch uniongyrchol, effeithiau gor-dwristiaeth, traweffeithiau'r gadwyn gyflenwi ac effeithiau gwariant y gweithlu. Cyfrifir bod 11,763 o swyddi FTE yn gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol craidd yng Nghymru, sydd yn ei dro'n cyfrannu dros £500 miliwn o GVA i'r economi genedlaethol y flwyddyn. Mae amgueddfeydd yng Nghymru'n cefnogi dros 6,000 o swyddi FTE ac yn cynhyrchu dros £235 miliwn o GVA.

Mae gweithgarwch sefydliadol uniongyrchol ar draws yr amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd yn cefnogi 4,476 o swyddi FTE ac yn cyfrannu £167.0 miliwn o GVA y flwyddyn. Cynhyrchir y traweffeithiau hyn drwy reolaeth o ddydd i ddydd, gwasanaethau ymwelwyr, gweithrediadau, gweithgarwch gwaith adeiladu a chadwraeth, addysg ac ymchwil.

Mae'r amgylchedd hanesyddol hefyd yn chwarae rhan fawr yn cefnogi'r economi ymwelwyr. Amcangyfrifir bod y traweffeithiau gor-dwristiaeth y gellir eu priodoli i'r sector yn cynhyrchu dros £615 miliwn o wariant oddi ar y safle bob blwyddyn, gan gefnogi 10,317 o swyddi'r economi dwristiaid a chyfrannu £355.7 miliwn o GVA i economi Cymru. Mae hyn yn cynnwys bron i £250 miliwn o ymweliadau â'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, a £106.5 miliwn sy'n gysylltiedig gydag ymweliadau ag amgueddfeydd sydd wedi'u hachredu yng Nghymru.

Yn ogystal â'r traweffeithiau economaidd yma, mae'r sector yn cynhyrchu gwerth cymdeithasol ariannol sylweddol. Mae'r asesiad yn amcangyfrif bod ymgysylltiad gyda'r sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru yn cynhyrchu £107.1 miliwn o werth

cymdeithasol bob blwyddyn, gan gynnwys £62.3 miliwn sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd hanesyddol a £44.8 miliwn yn gysylltiedig gydag amgueddfeydd. Mae hyn yn cynnwys buddion sy'n gysylltiedig gyda gwerthoedd defnydd a dim defnydd treftadaeth, llesiant amgueddfeydd, gwirfoddoli, addysg, cyflenwi gwaith a llesiant cyflogaeth. Mae'n bwysig nodi bod yr asesiad hwn wedi canolbwyntio ar y gwerth cymdeithasol a gynhyrchwyd drwy ymgysylltiad uniongyrchol gyda'r amgylchedd hanesyddol ac amgueddfeydd, yn ogystal â thraweffeithiau llesiant dim defnydd sy'n gysylltiedig gyda'r amgylchedd hanesyddol ehangach gan ddefnyddio technegau ymchwil gwerthfawrogi digwyddiadol. Mae'r dull hwn wedi'i gytuno arno gyda Cadw a Llywodraeth Cymru fel y ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r amcanion ymchwil craidd, er bod AMION yn cydnabod bod detholiad ehangach o dechnegau amgen a allai fod wedi cael eu defnyddio. Fodd bynnag, mae graddfa'r traweffaith sydd wedi'i adnabod drwy'r astudiaeth hon wedi'i chadarnhau gan edefynnau ehangach o ymchwil sy'n archwilio agweddau gwahanol ond sy'n cyd-fynd gydag agweddau o werth yr amgylchedd hanesyddol. Er na ellir cymharu'r astudiaethau hyn yn uniongyrchol gyda'r asesiad yma, maent yn atgyfnerthu'n eglur y prif gasgliad bod yr amgylchedd hanesyddol yn cynhyrchu gwerth sydd yn sylweddol y tu hwnt i'w draweffaith uniongyrchol.

Mae'r asesiad ansoddol ehangach yn dangos bod gwerth y sector hefyd yn ymestyn y tu hwnt i fuddion gwerth ariannol yn unig. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu'n gryf at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys lles, hunaniaeth ddiwylliannol, cynhwysiant cymdeithasol, addysgu, adfywiad, cynaliadwyedd amgylcheddol a gwytnwch hinsawdd. Mae'r astudiaethau achos a gyflwynir yn dangos bod sefydliadau treftadaeth yn gynyddol yn darparu gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar bobl ochr yn ochr â'u rolau cadwraeth a stiwardiaeth craidd.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd defnyddio methodoleg o'r gwaelod i fyny. Nid yw setiau data sydd ar gael yn gyhoeddus yn dal cyfradd nac amrywiaeth y sector amgylcheddol hanesyddol yn llawn, yn arbennig felly lle mae cyflogaeth a gwariant perthnasol yn gyfrifoldeb i awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau, cyrff cyhoeddus, amgueddfeydd a sefydliadau ehangach sydd heb gael eu dosbarthu'n daclus o fewn codau diwydiannol safonol. Mae'r prif waith casglu data cynradd yr ymgwymerwyd ag o ar gyfer yr astudiaeth hon felly'n darparu mwy o ddealltwriaeth fanwl a chadarn o'r sector nag a fyddai'n bosib drwy ddata eilaidd yn unig.

Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr astudiaeth hon yn dangos bod amgylchedd hanesyddol Cymru nid yn unig yn gaffaeliad diwylliannol, ond ei fod hefyd yn adnodd cenedlaethol strategol sy'n cefnogi gwytnwch economaidd, lles cymunedol a hunaniaeth genedlaethol. Bydd buddsoddiad cynaliadwy yn ei amddiffyniad a'i weithrediad gan hynny yn hanfodol i ddarparu twf cynhwysfawr hirdymor a deilliannau llesiant ar draws Cymru.

6.3 Argymhellion newydd

Mae'r tabl isod yn cyflwyno crynodeb o argymhellion newydd sy'n cael eu hadnabod yn ystod paratoi'r adroddiad hwn. Mae'r argymhellion wedi cael eu strwythuro'n fras yn ddau grŵp:

- Mae argymhellion yn gysylltiedig gyda sut y gellid datblygu'r gwerth ymhellach ar draws y sector, a'u cysylltu gyda chyfleoedd ymchwil yn y dyfodol
- Gellir defnyddio argymhellion ehangach ar draws y sector ar gyfer sut y gellir ddefnyddio canfyddiadau'r astudiaeth hon er mwyn parhau i hyrwyddo gwerth sylweddol ac amlweddol amgylchedd hanesyddol Cymru

Gwerthfawrogi ac ymchwil ar draws y sector yn y dyfodol

1. Ailadroddwch yr ymarfer gwerthfawrogi ar draws y sector o bryd i'w gilydd gan ddefnyddio methodoleg gyson
2. Datblygwch fframwaith data sector mwy cynhwysfawr
3. Archwiliwch feysydd ymchwil cysylltiedig ac sy'n anoddach i'w meintoli gan gynnwys dulliau gwerthfawrogi amgen. Gallai'r rhain gynnwys astudiaethau diweddar sydd wedi'u harwain gan Historic England sy'n canolbwyntio ar y traweffeithiau lles ehangach sy'n gysylltiedig gyda dwysedd treftadaeth, adeiladau rhestredig a llefydd hanesyddol
4. Ystyriwch astudiaeth gymharol gyda gwledydd neu ranbarthau eraill

Eiriolaeth o fewn y sector a defnyddio canfyddiadau

5. Defnyddiwch ganfyddiadau gan unigolion allweddol megis Gweinidog Cabinet dros Ddiwylliant a Chwaraeon fel sail dystiolaeth a rennir ac fel adnodd ar gyfer ymgysylltiad trawsadrannol o fewn Llywodraeth Cymru, y sector yn ehangach a chyrrff cyhoeddus allweddol
6. Archwiliwch gyfleoedd i fwydo'r canfyddiadau i mewn i ddatblygiad polisi ehangach a mecanweithiau sy'n seiliedig ar le, megis Cyd-bwyllgorau Corfforaethol, y Gronfa Twf Lleol a Rhaglen Balchder Bro
7. Ystyriwch ddefnyddio'r Grŵp Amgylcheddol Hanesyddol, neu gyfleoedd eraill i gynnull ar draws y sector er mwyn adnabod blaenoriaethau brys a mwy hir dymor ar gyfer y sector yn dilyn cyhoeddi